CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL A



HUNANASESIAD

2025 - 2026

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys gwybodaeth am gynllunio a chynnydd blaenoriaethau'r Cyngor sef amcanion llesiant y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hunanwerthusiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

RHONDDA CYNON TAF

Cynnwys

ADRAN 1:
Crynodeb Gweithredol 3

ADRAN 2:
Yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni yn erbyn ein Hamcanion Llesiant yn ystod 2025/26 5
(Ein Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol)

Pobl a Chymunedau 7
Gwaith a Busnes 12
Byd Natur a'r Amgylchedd, 14
Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg 16

ADRAN 3:
Ein Hadroddiad Hunanasesu Blynyddol a'n Hasesiad Cyflawniad Panel (PPA) 18

Adran 3a:
Ein Fframwaith Rheoli Cyflawniad –
Sut mae popeth yn dod at ei gilydd, gan ganolbwyntio ar hunanwerthuso 23

Adran 3b:
Ein Hasesiad o'n Prif Weithgareddau 26

1. Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu 29
2. Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg 32
3. Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu 39
4. Rheoli Asedau 41
5. TGCh a Gwasanaethau Digidol 43
6. Caffael a Chomisiynu 47
7. Partneriaethau 51
8. Ymglymiad ac Ymgysylltiad 56
9. Y Gymraeg 59
10. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 62
11. Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon yn Rhondda Cynon Taf 64
12. Diogelu Corfforaethol 66
13. Adborth Rheoleiddwyr 68

Adran 3c:
Casgliad Cyffredinol 69

ADRAN 1

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



CRYNODEB GWEITHREDOL

ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL AC ADRODDIAD HUNANWERTHUSO 2025-2026

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu ardal yng Nghymoedd De Cymru sy'n cwmpasu 424 cilomedr sgwâr, yn ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i Brifddinas Caerdydd yn y de. Mae'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn amrywiol o ran eu natur a'u cymhlethdod – o gynnal mannau gwyrdd, casglu ailgylchu a sbwriel, dosbarthu prydau-ar-glud, addysgu ein pobl ifainc a gofalu am y rhai sydd angen cymorth i aros yn annibynnol. Mae tirwedd y fwrdeistref sirol yr un mor amrywiol. Mae gwasanaethau'n cael eu darparu o fewn y gymuned ac o nifer sylweddol o leoliadau, yn amrywio o swyddfeydd i ddepos ac adeiladau rheng flaen.

Mae'r adroddiad yma'n ymgorffori ein hunanasesiad blynyddol ar gyfer 2025/26 sy'n ofyniad gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ogystal â chrynodeb o'n cyflawniad sy'n ofyniad gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth adrodd ar ein cyflawniad dros y flwyddyn a chynnal ein hunanwerthusiad blynyddol, rydyn ni wedi bod yn onest ac wedi nodi meysydd i'w gwella. Mae ein proses hunanarfarnu gwasanaeth sefydledig wedi ein helpu ni i ddangos ymrwymiad i adolygu ein trefniadau yn barhaus i ateb y cwestiynau allweddol o ran pa mor dda rydyn ni'n cyflawni, sut rydyn ni'n gwybod hynny a beth sydd angen ei wella.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r dystiolaeth ar waith, ***'mae trefniadau'r Cyngor wedi bod yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y sefydliad, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig parhaus, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, cyflawni gwasanaethau yn gyffredinol a deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau'.*** *Mae'r farn gyffredinol yma'n gyson â'r adborth o Asesiad Cyflawniad y Panel.*

Mae nifer fach o feysydd i'w gwella wedi'u nodi er mwyn cryfhau'r prosesau cyfredol ymhellach. Yn unol â hynny, yn seiliedig ar y broses hunanasesu, mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi arfer ei swyddogaethau yn effeithiol; defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Mae ein hunanasesiad blynyddol wedi nodi meysydd i'w gwella a bydd y meysydd yma'n cael eu monitro drwy gydol 2026/27 yn rhan o drefniadau rheoli cyflawniad y Cyngor.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu farn am y ddogfen yma, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth, cysylltwch â Charfan Cyflawniad y Cyngor.

2 ADRAN

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



CYFLAWNI YN ERBYN EIN HAMCANION LLES YN YSTOD 2025/26

ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL AC ADRODDIAD HUNANWERTHUSO 2025-2026

YR HYN RYDYN NI WEDI'I GYFLAWNI YN ERBYN EIN HAMCANION LLESIANT YN YSTOD 2025/26

(EIN HADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL)

Cyn i ni fynd i fanylion ein hunanasesiad blynyddol (Adran 3), yn yr Adran yma rydyn ni wedi darparu crynodeb o gyflawniad y Cyngor yn ystod 2025/26. Darparwyd diweddariadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar ffurf ein hadroddiadau cyflawniad chwarterol. Cyflwynwyd ein hadroddiad cyflawniad blynyddol manwl ar gyfer 2025/26 i'r Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2026 ac yna fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, hefyd ar 13 Gorffennaf 2026.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd trefniadau adrodd i gyd-fynd â fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ddangos cymhwysiad y pum ffordd o weithio a gwerthuso cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae arddull 'archwiliad iechyd' ein hadroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar ein deilliannau datganedig sy'n cael eu cefnogi gan ddata meintiol ac ansoddol, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ceisio dangos effaith ein gwaith.

Nid yw'r Adran yma'n bwriadu atgynhyrchu'r manylion llawn sydd wedi'u trafod yn yr adroddiad blynyddol diwedd blwyddyn. Yn hytrach, mae'n darparu crynodeb sy'n canolbwyntio ar ein cyflawniadau yn erbyn ein Hamcanion Llesiant a'r deilliannau ategol sy'n cael eu nodi yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r risgiau i gyflawni ein Hamcanion Llesiant wedi'u hymgorffori yn ein trefniadau adrodd cyflawniad ac maen nhw'n cael eu hadolygu a'u craffu drwy gydol y flwyddyn. Mae copi o Gofrestr Risg Strategol y Cyngor ar ddiwedd 2025/26 wedi'i ddarparu er gwybodaeth.

Mae'r wybodaeth sydd i'w gweld isod yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaethom ni yn ystod 2025/26.

CYFLAWNWYD YN YSTOD 2025/26

DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:

Ar gyfer yr 8 deilliannau rydyn ni wedi bwriadu cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud...

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn 5 deilliant;
- cynnydd da er yn arafach nag a ragwelwyd yn erbyn 1 deilliant; a
- cynnydd cymysg yn erbyn 2 ddeilliant.

Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

Bydd presenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad ym mhob un o'n hysgolion yn parhau i ddangos cynnydd cryf, yn cymharu'n ffafriol â rhannau eraill o Gymru, gyda deilliannau addysgol gwell, a chyfleoedd gwaith a hyfforddiant gwell ar gyfer ein disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gymysg. Gwellodd y deilliannau yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5, mewn termau absoliwt ac o'u cymharu â'r cyfartaledd trwy Gymru. Serch hynny, er gwaethaf gwelliannau, mae angen rhoi sylw blaenoriaethol parhaus i lefelau presenoldeb, yn enwedig o ran disgyblion agored i niwed, ac mae gormod o bobl ifainc sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant ar hyn o bryd.

Cynyddodd presenoldeb yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, - cynyddodd presenoldeb yn y sector cynradd o 0.7 pwynt canran i 92.3% a phresenoldeb yn y sectorau uwchradd 1.2 pwynt canran i 88.0%. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond lleihawyd y bwlch ar gyfer y ddau gyfnod. Serch hynny, mae data hyd at ddiwedd tymor y Gwanwyn 2025/26 yn awgrymu bod y gwelliant yma ddim wedi'i gynnal. Mae gostyngiad bach yn lefelau presenoldeb yn RhCT sy'n adlewyrchu'r darlun ledled Cymru lle mae lefelau presenoldeb wedi gostwng yn genedlaethol. Gwellodd presenoldeb disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 a lleihaodd y bwlch presenoldeb rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydyn nhw'n cael prydau ysgol am ddim o 0.5 pwynt canran. Serch hynny, mae'n parhau i fod ymhell islaw lefelau presenoldeb disgyblion eraill, ac mae bwlch o 10.5 pwynt canran yn RhCT ar lefel uwchradd. Mae hyn yn debyg i'r darlun yn genedlaethol, lle mae bwlch presenoldeb o 10 pwynt canran.

Gostyngodd y nifer o waharddiadau tymor penodol a pharhaol yn sylweddol yn y cyfnod uwchradd ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. Gostyngodd gwaharddiadau tymor penodol yn y cyfnod uwchradd i 172.9 fesul 1,000 o ddisgyblion, o'i gymharu â 195.09 ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Gostyngodd gwaharddiadau parhaol yn sylweddol i 1.59 fesul 1,000 o ddisgyblion, o'i

gymharu â 3.46 yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Dangosodd gwaharddiadau cynradd gynnydd bach mewn gwaharddiadau tymor penodol fesul 1,000 o ddisgyblion, o 19.06 i 22.92. Serch hynny, mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr wrth i nifer gwirioneddol y gwaharddiadau tymor penodol leihau o 385 i 364. Ni chafodd unrhyw ddisgyblion eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol gynradd.

Gwellodd canlyniadau Lefel A 4.3 pwynt canran ar gyfer A*-C (74.4%) ac 1.2 pwynt canran ar gyfer A* - E (97.0%) yn 2025 o'i gymharu â 2024, er bod canlyniadau A*-A (23.3%) wedi gostwng 0.2 pwynt canran. Mae canlyniadau RhCT yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru, ond mae'r bwlch wedi culhau ym mhob gradd. Mae RhCT bellach 0.2 pwynt canran islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer A*/A, 2.8 pwynt canran yn is ar gyfer A*-C a 0.5 pwynt canran yn is ar gyfer A*-E. Dangosodd data cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 (TGAU neu gyfwerth) ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 welliant ar draws yr holl ddangosyddion allweddol. Roedd y sgôr Capio 9 o 370.9 yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae sgoriau Rhifedd (36.0) a Gwyddoniaeth (35.8) bellach yn unol â chyfartaledd Cymru. Mae dangosyddion y dystysgrif her sgiliau (24.5), llythrennedd (38.4) a 5A*/A (15.3) yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru, ond mae'r bwlch wedi culhau ar draws y 3 dangosydd. O blith 17 o ysgolion a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 24/25, roedd 2 mewn categorïau 'camau dilynol'.

Bu gostyngiad yn nifer y disgyblion ym mlwyddyn 11 (1.7%) a 12 (1.1%) sy'n dod yn bobl ddi-waith heb addysg na hyfforddiant. Mae nifer y disgyblion Blwyddyn 11 a ddaeth yn bobl ddi-waith heb addysg na hyfforddiant yn is na chyfartaledd Cymru. Serch hynny, mae'r duedd yma'n gwrthdroi ym mlwyddyn 12 lle mae nifer y disgyblion sy'n dod yn bobl ddi-waith heb addysg na hyfforddiant ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru. Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dod yn bobl ddi-waith heb addysg na hyfforddiant ym mlwyddyn 13 (5.6%). Mae'r ganran yma hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae llais y disgybl yn dangos bod cynnydd yn nifer y rhai sy'n dewis cymryd blwyddyn i ffwrdd ar ôl astudio.

Bydd gan deuluoedd wydnwch gwell; bydd llai o blant yn ‘derbyn gofal’ a byddant yn cael cyfleoedd gwell mewn bywyd.

Yn unol â'n Strategaeth Atal ar Gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol. Rydyn ni wedi parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd mor gynnar â phosibl er mwyn cynyddu gwydnwch ac atal yr angen am wasanaethau statudol. Yn 2025/26, ymgysylltodd y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth â chyfanswm o 1,131 o deuluoedd, ac roedd 86% o'r teuluoedd yma (978) yn fwy cydnerth ar ôl cwblhau eu gwaith. Mae hyn ychydig yn llai nag yn 2024/25 pan adroddodd 88% (1,034) eu bod nhw'n fwy cydnerth. O'r plant a'r bobl ifainc hynny a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, dim ond 3.4% oedd angen ymyrraeth gan y Gwasanaethau i Blant statudol. Mae'r ffigurau yma'n tynnu sylw at allu'r gwasanaeth i gyflawni deilliannau cadarnhaol yn gyson i deuluoedd.

Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar roi cymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dechrau derbyn gofal. Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i ostwng, o 611 ar ddiwedd mis Mawrth 2025 i 586 ar ddiwedd mis Mawrth 2026. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o 309 ar ddiwedd mis Mawrth 2025 i 297 ar ddiwedd mis Mawrth 2026. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydyn ni wedi cynnal arolwg blynyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn gofyn i sampl o blant a phobl ifainc, a oedd â

chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y lluniwyd y sampl, sut maen nhw'n teimlo am y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn. At ei gilydd, cwblhaodd 89 o blant yr arolwg, o'i gymharu â 117 yn 2024/25, sef gostyngiad parhaus yn y gyfradd ymateb. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol, gyda'r holl ymatebwyr yn nodi eu bod nhw'n 'teimlo'n ddiogel lle roedden nhw'n byw' (100%) a'r mwyafrif helaeth yn nodi eu bod nhw'n 'teimlo eu bod yn cael gofal da' (99%) ac yn 'byw mewn cartref lle maen nhw'n hapus' (99%).

Bydd mwy o'n trigolion yn defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol i gadw'n heini ac yn iach a lleihau eu risg o afiechyd.

Yn unol â'n Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol. Mae nifer y trigolion sy'n defnyddio ein cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn parhau i dyfu, a chofnodwyd mwy na 3 miliwn o ymweliadau yn 2025/26. Mae cynllun aelodaeth Hamdden am Oes y Cyngor yn parhau'n sefydlog o flwyddyn i flwyddyn gyda bron i 11,650 o aelodaethau.

Mae canlyniadau ein Harolwg Agwedd Cwsmeriaid Canolfannau Hamdden 2024/25 yn dangos bod 99% o gwsmeriaid yn teimlo'n gadarnhaol ar ôl ymarfer corff, mae 89% o gwsmeriaid yn nodi eu bod yn teimlo'n well yn gorfforol ar ôl eu hymweliad, mae 77% o gwsmeriaid yn nodi bod ganddyn nhw fwy o hunan-barch ar ôl eu hymweliad, mae 62% o gwsmeriaid yn nodi bod ymarfer corff yn helpu eu hiechyd meddwl a'u lles ac mae 66% o gwsmeriaid yn ymweld â'n canolfannau 3 gwaith neu fwy yr wythnos.

Bydd plant yn ein gofal yn derbyn gofal yn nes at eu cartref ac yn cadw cysylltiad â'u teuluoedd, ffrindiau a chymunedau.

Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifainc yn cael gofal yn agosach at eu cartref. Mae 71% o'r plant sy'n derbyn gofal yn preswylio yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd (417/586), o gymharu â 73% yn 2024/25. O'r 106 o leoliadau a ddechreuodd yn 2025/26, lleolwyd 76% o blant o fewn RhCT (yn agosach at eu cartref) o'i gymharu â 60% yn 2024/25. Rydyn ni hefyd wedi cynyddu nifer y plant mewn lleoliadau 'di-elw', yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru (LlC), o 20 i 22 ym mis Mawrth 2026.

Er gwaethaf ymdrechion parhaus i gynyddu nifer y Rhieni Maeth yn RhCT, ymdrech sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth, mae nifer y Rhieni Maeth yn RhCT wedi gostwng ychydig eto, i 243 ar 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â 248 ar yr un dyddiad y flwyddyn flaenorol (mae'r sefyllfa yma'n amlwg ledled Cymru). Serch hynny, rydyn ni wedi parhau i weld cynnydd cadarnhaol yn nifer y Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig, o 333 ym mis Mawrth 2025 i 342 ym mis Mawrth 2026. Mae Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig yn darparu cartref sefydlog, hirdymor a dewis arall yn lle rhoi plentyn yng ngofal Gwasanaethau i Blant.

Gwasanaethau cydgysylltiedig gwell ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pobl yn cael y gofal cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud i weithredu ymateb cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol brys, er ei fod yn arafach nag a gynlluniwyd gennym ni. Mae data iechyd ynghylch oedi yn y llwybr at ofal wedi dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n profi oedi wrth aros i gael gweithiwr cymdeithasol (56 yn 2025/26 o'i gymharu â 43 yn 2024/25). Serch hynny, cafwyd gostyngiad sylweddol mewn oedi oherwydd aros i becyn cartref gofal newydd ddechrau (87 yn 2025/26 o'i gymharu â 279 yn 2024/25),

ac mae hyn yn dangos effaith gadarnhaol y contractau gofal yn y cartref a gafodd eu hail-dendro yn 2024/25. Mae nifer y bobl sy'n profi oedi o ganlyniad i argaeledd cartrefi gofal preswyl (35 yn 2025/26 o'i gymharu â 50 yn 2024/25) a chartrefi nyrsio (31 yn 2025/26 o'i gymharu â 108 yn 2024/25), wedi lleihau. Mae cyflawniad cyffredinol ar gyfer oedi yn y llwybr at ofal a hyd yr arhosiad wedi gwella'n gyson yn ystod y flwyddyn ariannol yma i drigolion Rhondda Cynon Taf. Mae hynny'n bennaf oherwydd y dull cartref yn gyntaf a chyflawniad y darparwyr gofal yn y cartref. Bydd gwaith yn parhau i wella llwybrau gofal i gefnogi gwelliant parhaus yn amseroldeb darparu gwasanaethau.

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, fe gynhalion ni arolwg blynyddol i ddefnyddwyr y gwasanaeth a oedd yn gofyn i sampl o oedolion 18 oed a hŷn, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y lluniwyd y sampl, sut maen nhw'n teimlo am y gofal a'r cymorth y maen nhw'n ei dderbyn. Eleni cwblhaodd 300 o bobl yr arolwg o'i gymharu â 496 o bobl yn 2024/25, gostyngiad parhaus yn y gyfradd ymateb. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol, gan aros yn gyson yn uchel o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi eu bod nhw'n 'teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw' (89%) ac yn 'byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles' (91%).

Llai o bobl yn cael eu heffeithio gan/yn profi trais domestig neu'n mynd yn gaeth i gyffuriau neu alcohol.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol i bobl sy'n ymgysylltu â'n gwasanaethau. Mae Cynghorwyr Trais Domestig (IDVAs) yn weithwyr proffesiynol arbenigol mewn cam-drin domestig sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig sydd mewn perygl uchel o ddioddef niwed difrifol. Mae deilliannau cleientiaid ar gyfer 2025/26 yn dangos bod 96% o gleientiaid wedi nodi eu bod nhw'n teimlo'n fwy diogel ers y cyfnod derbyn, bod 84% wedi profi gostyngiad mewn cam-drin corfforol a rhywiol a bod 73% wedi profi gostyngiad mewn aflonyddu a stelcio ac/neu ymddygiadau cenfigennus, rheoli a gorfodi.

Mae mwy o bobl wedi cael mynediad at wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau o'i gymharu â'r llynedd (3,355 achos o ddechrau triniaeth o'i gymharu â 3,188 yn 2024/25) a dechreuodd 86% driniaeth o fewn 20 diwrnod i atgyfeiriadau, sy'n fwy na tharged LlC o 80%. Adroddodd 87.5% ostyngiad/dim newid mewn camddefnyddio sylweddau o ddechrau'r driniaeth, sy'n fwy na tharged LlC o 86.5%. Mae llai o unigolion wedi ymgysylltu ag allgymorth wedi'i dargedu lle mae gwasanaethau lleihau niwed wedi'u darparu (690 o unigolion o'i gymharu â 781 yn 2024/25).

Mwy o dai fforddiadwy a llai o dai gwag.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol, gyda gostyngiad yn nifer cyffredinol y cartrefi gwag. Mae cofnodion treth y cyngor yn dangos bod 2,687 o gartrefi yn y sector preifat wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ar 1 Ebrill 2026. Mae hyn o gymharu â 2,699 y flwyddyn flaenorol, sy'n ostyngiad sylweddol ers cyflwyno Strategaethau Cartrefi Gwag y Cyngor ym mis Ebrill 2017 (3,556). Cafodd 178 eiddo gwag (6.6%) eu defnyddio eto yn 2025/26, gostyngiad o'i gymharu â 240 y flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â thai gwag problemus hirdymor sy'n lleihau o ran nifer. Cynyddodd cyfradd yr unedau tai fforddiadwy newydd a gyflenwyd i 16 fesul 10,000 o aelwydydd (o 14.3 fesul 10,000 o aelwydydd yn 2024/25), gyda 168 o dai fforddiadwy wedi'u cyflenwi.

Bydd gan lai o gartrefi yn RhCT gyfraddau ynni islaw Tystysgrif Cyflawniad Ynni D.

Mae cynnydd yn y maes yma'n gadarnhaol. Mae gyda 85% o gartrefi yn Rhondda Cynon Taf sgôr effeithlonrwydd ynni D neu uwch, cynnydd o 7.27% o'r ffigur gwaelodlin, 77.73%. Cyfrifir data ar gyfer cyfnod treigl o 10 mlynedd yn seiliedig ar dystysgrifau cyflawniad ynni cyhoeddedig.



GWAITH A BUSNES

CYFLAWNWYD YN YSTOD 2025/26

DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:

Ar gyfer y 6 deilliant rydyn ni wedi bwriadu cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud...

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn 2 ddeilliant;
- cynnydd cymysg yn erbyn 3 deilliant; ac
- mae angen rhagor o dystiolaeth i sefydlu cynnydd yn erbyn un deilliant.

Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

Canol trefi gyda busnesau ffyniannus sy'n helpu i gefnogi'r economi

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol, ond nid yw ei effaith wedi'i throsi'n ddata deilliannau allweddol eto. Yn dilyn cyflawni prosiectau llwyddiannus, er enghraifft, ym Mhontypridd, Canolfan Gelfyddydau'r Muni a'r parth cyhoeddus ar safle'r hen Neuadd Fingo yn y flwyddyn flaenorol, mae amrywiaeth o brosiectau pellach yn cael eu datblygu neu ar y gweill, gan gynnwys ailddatblygu safle Rock Grounds yn Aberdâr, hen safle M&S ym Mhontypridd a dymchwel yr hen orsaf Heddlu yn ardal Porth y Gogledd ym Mhontypridd. Mae Ardal Gwella Busnes wedi'i sefydlu ar gyfer Tonypandy, ac mae strategaeth newydd ar gyfer canol y dref wedi'i llunio mewn cydweithrediad â'r cymunedau lleol a busnes.

Er ei bod hi'n rhy gynnar i ddangos tystiolaeth lawn o effaith ein holl waith, mae gwerthusiadau annibynnol o brosiectau gan gynnwys datblygiad Llys Cadwyn, gwelliannau Parc Ynysangharad ac Unedau Busnes Tresalem wedi dangos effaith gadarnhaol y prosiectau yma. Yn ystod y 12 mis cyntaf ers iddo agor, mae'r Muni wedi derbyn dros 10,000 o ymwelwyr i dros 200 o achlysuron. Serch hynny, mae cyfraddau ymwelwyr ar draws canol ein trefi yn dangos darlun cymysg. Bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ym Mhontypridd a'r Porth ond gostyngiad bach yn Aberdâr a Threorci o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r arolygon cyfradd siopau gwag diweddaraf (Mai 2026) yn dangos tuedd gadarnhaol barhaus yn Aberdâr lle mae'r gyfradd siopau gwag wedi parhau i ostwng i 15.63%. Mae cyfraddau siopau gwag yn parhau'n uchel yn y Porth ac maen nhw hefyd wedi cynyddu yn Nhreorci. Bu cynnydd bach hefyd yng nghyfraddau siopau gwag ym Mhontypridd. Serch hynny, mae'r dref, sydd â chyfradd siopau gwag o 11.11%, yn dal i gymharu'n ffafriol â meincnodau cenedlaethol ac yn cynnal cynnig cryf o fanwerthwyr annibynnol.

Mae seilwaith a systemau trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cydgysylltiedig ac yn annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio

Mae hi wedi bod yn anodd mesur cynnydd yn y maes yma. Roedd amrywiaeth o gynlluniau prisiau gostyngol ar waith ar wasanaethau bysiau yn Rhondda Cynon Taf rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2025, gan gynnwys prisiau sengl £1 i blant a phrisiau sengl £1.50 i oedolion. Arweiniodd y rhain at 501,433

o deithiau â chymhorthdal. Gwnaed 68 o welliannau i arosfannau bysiau i wella mynediad a phrofiad y defnyddiwr, gan gynnwys ymylon palmentydd uwch a llochesi newydd. Aethpwyd ymlaen â'r gwaith dylunio ac adeiladu ar ystod o gynlluniau teithio llesol gan gynnwys Cam 5 llwybr teithio llesol Rhondda Fach. Cafodd y gwaith ar Lwybr Cynon – Slip Pen-y-waun ei ohirio a bydd yn cael ei ddatblygu yn 2026/27. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r gronfa o wybodaeth ymhellach i helpu i asesu effaith ein gwaith.

Mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd mewn lleoliadau'r Cyngor sy'n cefnogi teithio carbon isel.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol, gyda chynnydd yn y seilwaith cerbydau trydan wedi'i ddarparu. Mae 61 o bwyntiau gwefru wedi'u gosod ar safleoedd y Cyngor yn 2025/26, gan gynyddu'r cyfanswm i 164. Ochr yn ochr â hynny, mae fflyd y Cyngor bellach yn cynnwys 54 o gerbydau ULEV, 11.92% o gyfanswm y fflyd.

Mwy o fusnesau yn cael eu cefnogi i ddatblygu, moderneiddio a thyfu

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol, fodd bynnag, mae effaith ein gwaith wedi bod yn gymysg. Parhaodd busnesau i gael eu cefnogi drwy raglenni grant (134 o'i gymharu â 136 y flwyddyn flaenorol) gyda mwy o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn cael eu creu neu eu diogelu (58.26 o'i gymharu â 48.93). Fe wnaethon ni hefyd gynyddu nifer y mesurau lleihau carbon wedi'u cynnwys mewn rhaglenni sy'n cael eu cefnogi gan grantiau (o 5 i 9). Gostyngodd cyfradd y busnesau newydd i 10.1 fel canran o fentrau gweithredol. Mae hyn yn dal i fod yn unol â chyfartaledd Cymru, sydd hefyd wedi dangos gostyngiad bach, er bod y ddau islaw cyfartaledd y DU. Gwellodd cyfradd cau busnesau i 11.7 fel canran o fentrau gweithredol ac er bod hyn yn dal i fod yn uwch na'r gyfradd gyfartalog genedlaethol (9.7), mae'r bwlch wedi lleihau.

Bydd mwy o bobl yn RhCT yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddod o hyd i waith a gwneud cynnydd.

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn gymysg. Cwblhaodd 48 o brentisiaid a 12 o raddedigion eu rhaglenni prentisiaeth 2 flynedd gyda'r Cyngor ym mis Awst 2025, gyda 94% o brentisiaid ac 83% o raddedigion yn sicrhau cyflogaeth yn dilyn eu rhaglenni. Cyflwynwyd rhaglenni cymorth cyflogaeth a sgiliau drwy gydol 2025/26, gan dargedu amrywiaeth o gleientiaid gan gynnwys grwpiau o gwsmeriaid agored i niwed, staff y Cyngor, a phobl ifainc.

Fe wnaeth 1,565 o bobl ymgysylltu â chymorth o ran cyflogaeth, cafwyd 586 cais am swydd. Cwblhaodd 1,007 o bobl eu hyfforddiant neu ennill cymwysterau. Serch hynny, cododd canran y bobl yn RhCT sy'n ddi-waith i 6.0% yn 2025/26. Gostyngodd canran y bobl sy'n economaidd weithgar i 69.3%, gan aros islaw cyfartaledd Cymru o 76%.

Bydd mwy o bobl yn ymweld â RhCT o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ac yn mwynhau'r diwylliant, natur, gweithgaredd a thwristiaeth antur sydd gan RhCT i'w gynnig.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn y maes yma. Mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd yn nifer yr ymweliadau blynyddol ag atyniadau twristiaeth yn RhCT i 2.346 miliwn (data 2024), o'i gymharu â 2.197 miliwn y flwyddyn flaenorol. Mae data lleol rhagarweiniol yn awgrymu blwyddyn gadarnhaol arall i ymwelwyr yn 2025; bydd ffigurau terfynol ar gael ddiwedd yr haf.

BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

CYFLAWNWYD YN YSTOD 2025/26

DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:

Ar gyfer y 6 deilliant roedden ni'n bwriadu eu cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud...

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn 5 deilliant: a
- mae angen rhagor o dystiolaeth i sefydlu cynnydd yn erbyn un deilliant.

Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

Gwell ansawdd aer ledled y Fwrdeistref Sirol.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn y maes yma. Ar ddechrau 2024/25, roedd gan RCT 16 ardal rheoli ansawdd aer (AQMAs) gyda lefelau uchel yn hanesyddol o allyriadau NO2. O ganlyniad i gydymffurfiaeth barhaus â'r Amcan Ansawdd Aer (AQO) cymedrig blynyddol ar gyfer NO2, mae 6 ardal rheoli ansawdd aer ar hyn o bryd, sy'n ostyngiad sylweddol. Lefelau cyfartalog NO2 ledled Rhondda Cynon Taf oedd 22.1, gostyngiad o 10.5% dros gyfnod o 12 mis o'i gymharu â gostyngiad o 5.1% yn 2024/25.

Pobl a chymunedau sy'n gallu cadw'n heini ac yn iach yn ein mannau gwyrdd.

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol. Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar wella a chynnal ein mannau gwyrdd ledled RhCT, ac mae pedwar man gwyrdd cyhoeddus a pharc wedi ennill Gwobr y Faner Werdd 2025 am yr ail flwyddyn yn olynol: Parc Aberdâr, Parc Gwledig Cwm Dâr, Parc Ffynnon Taf a Pharc Coffa Ynysangharad. Mae'r Cyngor yn parhau i annog trigolion i gadw'n heini yn ein mannau gwyrdd a bu niferoedd cynyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn yr awyr agored o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwnaed bron i 475,000 o ymweliadau â'n meysydd chwarae glaswellt awyr agored a bron i 710,000 â'n caeau 3G yn 2025/26. Cymerodd dros 36,000 o bobl ran mewn gweithgareddau corfforol am ddim yn ein Cyfleusterau Awyr Agored RhCT gan gynnwys Park Run ac ymweliadau â'n pyllau padlo.

Mae bywyd gwyllt yn ffynnu ar dir y Cyngor sy'n cael ei reoli mewn ffordd gadarnhaol.

Mae wedi bod yn anodd mesur cynnydd yn y maes yma yn y tymor byr. Mae 5 safle tirwedd fyw newydd wedi cael eu hychwanegu at y rhwydwaith yn 2025/26 ac mae cyfanswm o 64 safle ledled RhCT bellach. Rydyn ni wedi llwyddo i integreiddio bioamrywiaeth i'r system gynllunio ers amser maith, o ymholiadau cychwynnol hyd at reolaeth hirdymor, trwy gytundebau Adran 106. Mae nifer o safleoedd sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor bellach yn rhan o'r prosiect Tirweddau Byw ac yn darparu cyfleoedd 'Natur ar Garreg Eich Drws' i drigolion a busnesau lleol.

Mae cymunedau'n cael eu cefnogi i wneud mwy i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu a byw'n gynaliadwy.

Mae'r ddarpariaeth yn y maes yma wedi bod yn gadarnhaol. Casglwyd 78,742.82 tunnell (79,214.72 tunnell yn 2024/25) o wastraff trefol a'i ailgylchu ac/neu ei baratoi er mwyn ei ail-ddefnyddio. Mae hyn yn cynrychioli 72.01% o'r gwastraff trefol a gasglwyd, sy'n gynnydd o'i gymharu â 71.11% yn 2024/25. Anfonwyd 0.78% o wastraff i safleoedd tirlenwi, sy'n ostyngiad o'i gymharu â 1.65% yn 2024/25. Mae cyfanswm y gwastraff trefol a gasglwyd wedi lleihau 2,056.66 tunnell (o 111,403 tunnell yn 2024/25 i 109,346.33 tunnell). Mae 15,607.90 tunnell o wastraff bwyd wedi'i gasglu, cynnydd o 1,726.30 tunnell o'i gymharu â'r llynedd (13,881.60 tunnell). Casglwyd 1,115.09 tunnell o eitemau trydanol bach eleni, cynnydd o 32.16 tunnell o'i gymharu â'r llynedd (1,082.93 tunnell). Mae cynaliadwyedd bwyd wedi cael ei annog a'i gefnogi ymhlith trigolion yn Rhondda Cynon Taf ac mae 10 llain rhandir newydd wedi'u cwblhau ac 20 llain arall wedi'u hadnewyddu i'w hailddefnyddio.

Mae pobl yn mwynhau strydoedd glân, yn rhydd o drosedd amgylcheddol.

Mae cynnydd cadarnhaol yn y maes yma. Mae nifer cyfartalog y dyddiau gwaith sy'n cael eu cymryd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon wedi lleihau'n sylweddol i 4.1 diwrnod o'i gymharu â 7.49 diwrnod yn Ch4 yn 2024/25. Cafodd 100% o'r holl graffiti a adroddwyd ei ddileu o fewn y targed, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 95.74%. Roedd 100% o'r priffyrdd a'r tir perthnasol a archwiliwyd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid, sydd yr un fath â'r llynedd.

Mae mwy o ynni gwyrdd yn cael ei gynhyrchu o ‘ynni adnewyddadwy’.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn y maes yma. Bu cynnydd sylweddol yn yr ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu ar dir neu adeiladau'r Cyngor o 2.74 MW yn 2024/25 i 10.09 MW yn 2025/26, sy'n dangos cynnydd sylweddol o'r llinell sylfaen o 2 MW yn 2021/22. Mae ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu gan fferm solar Coed-elái wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y ffigur yma.

CYFLAWNWYD YN YSTOD 2025/26

DATGANIAD CYFFREDINOL O GYNNYDD:

Ar gyfer y 6 deilliant rydyn ni wedi bwriadu cyflawni yn ein Cynllun Corfforaethol, rydyn ni wedi gwneud...

- cynnydd cadarnhaol yn erbyn 4 deilliant;
- cynnydd cymysg yn erbyn 1 deilliant: a
- mae angen rhagor o dystiolaeth i sefydlu cynnydd yn erbyn un deilliant.

Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pob deilliant wedi'i nodi isod.

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn y deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu gweld erbyn 2030.

Mae mwy o bobl yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a mwy o ddisgyblion yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn y maes yma. Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, bu cynnydd yng nghanran y plant mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg mewn meithrinfeydd/cyn-feithrinfeydd (24.07%) a Blwyddyn Un (20.36%), er bod nifer y dysgwyr wedi aros yr un fath oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion yn gyffredinol. Yn unol â'n Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27, rydyn ni'n parhau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ein gwasanaethau. Mae gwaith cadarnhaol i gynyddu lefelau sgiliau staff, gan gynnwys y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, wedi gweld cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu. Ar hyn o bryd mae 10.51% o weithlu'r Cyngor yn rhugl yn y Gymraeg, 2.51% ar Lefel 4 a 2.27% ar Lefel 3. Mae'r rhain i gyd yn dangos cynnydd o'i gymharu â data'r flwyddyn flaenorol, gan ein dwyn yn agos at ein targed o 12.4% o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu (yn unol â'r ganran yn y gymuned).

Mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n 'perthyn' yn eu cymunedau, yn cyd-dynnu'n dda ac yn trin ei gilydd â pharch.

Nid oes gennym ni ddata Awdurdod Lleol i ddangos cynnydd yn erbyn y deilliant yma ar hyn o bryd, gan ein bod ni wedi methu cael mynediad at ddata cenedlaethol a oedd ar gael yn flaenorol. Nid yw Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi unrhyw ddata ar lefel Awdurdod Lleol ar gyfer 2024/25 gan fod meintiau'r samplau yn rhy fach. Serch hynny, darparwyd data ar lefel ranbarthol Cwm Taf Morgannwg ac mae hyn yn dangos bod 73% o bobl yn 'teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol' sy'n unol â Chyfartaledd Cymru (36% yn cytuno'n gryf, 37% yn tueddu i gytuno) a bod gan 56% o bobl ymdeimlad o gymuned, sydd ychydig yn is na Chyfartaledd Cymru o 57.8%. Yn 2025/26, nid yw'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i gynnal eto, gan fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn newid contractwr ac yn datblygu fersiwn newydd, cwbl ar-lein o'r arolwg. Mae'r arolwg yn ailddechrau ar gyfer blwyddyn arolwg 2026 i 2027, ac rydyn ni'n gobeithio cael mynediad at ddata pellach gan Awdurdodau Lleol yn hydref 2027.



Mwy o gyfleoedd i drigolion o bob oed a chefndir ‘gysylltu’ drwy’r celfyddydau, llyfrgelloedd a gweithgareddau ac achlysuron cymunedol.

Mae cynnydd wedi bod yn gadarnhaol gyda chynnydd yn nifer yr ymweliadau â'n llyfrgelloedd yn 2025/26 o'i gymharu â 2024/25. Roedd 925,323 o ymweliadau corfforol a rhithwir yn 2025/26 o'i gymharu â 818,108 yn 2024/25. Mae ein Harolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid ar gyfer Gwasanaeth y Llyfrgelloedd 2025 hefyd yn dweud wrthym ni fod 96% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywyd a'u llesiant.

Yn dilyn cyflwyno 'Sgyrsiau Cymunedol' gyda thrigolion yn ymgysylltu mewn lleoliadau cymunedol, mannau cynnes a grwpiau cymunedol gweithredol, o gyfanswm o 140 o ymatebwyr, cytunodd 97% fod 'Fy nghysylltiadau cymdeithasol/cyfeillgarwch wedi cynyddu', cytunodd 84% 'Rydw i'n teimlo fy mod i'n fwy grymus i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnaf i' a chytunodd 97% 'Rydw i'n teimlo bod fy iechyd meddwl a'm lles wedi gwella'.

Cyfleoedd i drigolion hyrwyddo a mynegi eu diwylliant, eu treftadaeth a rhannu ymrwymiad i fywydau cynaliadwy drwy gymuned gelfyddydol lewyrchus.

Mae cynnydd yn y maes hwn yn gymysg. Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y sefydliadau celf mae'r Cyngor yn y cefnogi eleni, mae'r gwasanaeth wedi cydweithio â Theatr y Sherman ar 3 chynhyrchiad. Bu gostyngiad bach hefyd yn nifer yr ymweliadau â'n hachlysuron celfyddydol: fe wnaeth 38,425 o unigolion fynychu achlysuron celfyddydol o'i gymharu â 38,697 yn 2024/25. Mae penodiad yr Artist mewn Gwasanaeth newydd, i dyfu gwaith celf cymunedol gan ei wneud yn eiddo i'r gymuned fel cynulleidfa, pwnc a chyd-awdur, a chydnabyddiaeth ein prosiect Artist mewn Gwasanaeth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn enghreifftiau o ddeilliannau cadarnhaol eleni.

Mae mwy o bobl yn uniaethu â'r hanes a luniodd Rhondda Cynon Taf heddiw ac mae ganddyn nhw gysylltiad â'r gorffennol.


Mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol gydag ystod eang o gyfleoedd i drigolion ymgysylltu â threftadaeth leol, a niferoedd cryf o ymwelwyr â'n safleoedd treftadaeth allweddol (er enghraifft, 109,971 o ymweliadau â Pharc Treftadaeth Cwm Rhondda). Er mwyn sicrhau cysylltiad â'r gorffennol, rydyn ni'n parhau i ddigideiddio, cadw a chynnal cofebion rhyfel yn Rhondda Cynon Taf, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr o'r gymuned. Rydyn ni'n cydnabod bod angen i ni wneud mwy i ddeall barn ein trigolion ac rydyn ni'n datblygu Fframwaith Gwerthuso Effaith Iechyd a Llesiant Cymunedol newydd i'n helpu i wneud hyn.

Mae cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei chefnogi gan y gymuned ehangach.

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol gyda chynnydd yn yr ystod o gefnogaeth i gyn-filwyr gan gynnwys yr Hwb newydd i Gyn-filwyr ym Mhontypridd yng Nghalon Taf. Mae ansawdd y gefnogaeth gan grŵp ‘Valley Veterans’ eleni wedi cael ei gydnabod gan 'Wobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol'. Mae mwy o gyn-filwyr hefyd wedi manteisio ar ein haelodaeth Hamdden am Oes Corfforaethol am bris gostyngol (o 16 i 26 eleni), ond mae ein haelodaeth am ddim wedi gostwng ychydig o 267 i 264. Rydyn ni'n cydnabod bod modd cryfhau'r maes yma gyda data ychwanegol.

3 ADRAN

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



EIN HADRODDIAD HUNANWERTHUSO BLYNYDDOL A'N HASESIAD CYFLAWNIAD PANEL

ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL AC ADRODDIAD HUNANWERTHUSO 2025-2026

Trosolwg

Mae'r dyletswyddau Cyflawniad a Llywodraethu sy'n cael eu hamlinellu yn Rhan 6, Pennod 1 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ymwneud â chryfhau a grymuso llywodraeth leol..."*[gan d]diffinio prif gynghorau'n bendant fel sefydliadau sy'n gwella eu hunain drwy system sy'n seiliedig ar hunanwerthuso ac ar asesiadau o berfformiad gan baneli*".
Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus wneud y pethau canlynol:

- parhau i adolygu cyflawniad
- ymgynghori ar gyflawniad ac
- adrodd ar gyflawniad, gan baratoi adroddiad hunanwerthuso ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Ddeddf yn nodi hynny *'Rhaid i gyngor lunio adroddiad hunanwerthuso ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ar y graddau y gwnaeth fodloni'r gofynion cyflawniad yn ystod y flwyddyn honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion cyflawniad.*. Nod y ddogfen yma yw cyflawni'r ddyletswydd yma.

Mae'r hunanwerthusiad Corfforaethol yn asesiad cynhwysfawr o'r sefydliad ac nid yw'n asesiad manwl o berfformiad pob portffolio gwasanaeth. Nod yr hunanwerthusiad yw darparu llwyfan ar gyfer sicrwydd a gwelliant a thrwy wneud hynny helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i'r trigolion rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Dyma ein pumed hunanasesiad, ac rydyn ni'n parhau i ddysgu a datblygu ein dull o'n hunanasesiadau blaenorol. Rydyn ni hefyd yn ceisio dysgu o'r wybodaeth a rennir sy'n dod i'r amlwg gan gynghorau eraill ac adborth gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rheoleiddwyr Annibynnol y Cyngor, Archwilio Cymru.

O fewn pob rhan o'r hunanwerthusiad yma, ein nod yw gwneud y defnydd gorau o'r data a'r wybodaeth sydd eisoes yn y parth cyhoeddus, er enghraifft, adroddiadau i bwyllgorau, polisïau, cynlluniau a strategaethau perthnasol y Cyngor. Mae'r dull yma'n lleihau'r wybodaeth sy'n cael ei hailadrodd ac yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen fel y nodir yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion cyflawniad', sef i ba raddau y mae:

1. **yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;**
2. **yn defnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol;**
3. **ei lywodraethu'n effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod.**

Er bod y Ddeddf yn nodi'r ddyletswydd i gynnal hunanwerthusiad blynyddol ac adrodd arno, nid yw'n darparu strwythur i'r broses na'r adroddiad blynyddol, ac mae'r Ddeddf yn nodi'n benodol y dylai pob sefydliad benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun. I'n helpu ni drwy'r broses mae'n ddefnyddiol deall beth mae hunanwerthuso yn ei olygu ar ei lefel symlaf.

Mae'r cwestiynau canlynol yn ein harwain drwy'r broses hunanwerthuso:

1. **Ydyn ni'n gwneud yn dda?**
2. **Sut rydyn ni'n gwybod?**
3. **Beth allwn ni i ei wneud yn well a sut?**

Mae'r fframwaith y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu ac felly strwythur ein hunanwerthusiad yn seiliedig ar y meysydd canlynol:

- **Trosolwg a deilliannau ein Hasesiad Cyflawniad Panel a gwblhawyd yn ystod mis Hydref 2025.**
- **Ein fframwaith rheoli cyflawniad – sut mae'r cyfan yn cyd-fynd, gyda ffocws ar hunanwerthuso.**
- **Ein hasesiad o'n 'gweithgareddau craidd' – mae'r adran yma'n cynnwys manylion ein hasesiad a meysydd lle rydyn ni'n credu bod modd i ni wella lle bo'n briodol.**

Asesiad Cyflawniad Panel

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau i Banel annibynnol asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion cyflawniad. Mae hyn yn cael ei ddiffinio'n ffurfiol yn y Ddeddf fel 'Asesiad Cyflawniad Panel' (PPA).

Cynhaliwyd ein Hasesiad Cyflawniad Panel ym mis Hydref 2025.

Roedd ein Panel yn cynnwys aelodau annibynnol â digon o wybodaeth a phrofiad i gyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys cyn Prif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Cadeirydd y Panel), Prif Weithredwr Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfarwyddwr Elusen ac Arweinydd Cyngor Sir Fynwy.

Yn ogystal ag adolygu i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion cyflawniad, nododd y Cyngor y meysydd canlynol lle byddai mewnwelediad cymheiriaid yn cael ei werthfawrogi yn rhan o'r asesiad:

- Arddangos yr Effaith a'r Deilliannau ar gyfer ein Cymunedau
- Datblygu Cydnerthedd y Gymuned

Trafodwyd adroddiad y Panel gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Tachwedd 2025, y Cyfarfod Llawn o'r Cyngor ar 28 Ionawr 2026 ac yna cafodd ei gyhoeddi a'i ddosbarthu fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.

Daeth y Panel i'r casgliad bod:

"Mae Rhondda Cynon Taf yn Gyngor da, uchelgeisiol sy'n cael ei redeg yn dda, ac yn canolbwyntio ar wella bywydau ei ddinasyddion. Dangosodd y Cyngor fod ganddo hanes cryf o ddarparu gydag ethos o welliant parhaus. Mae'r Cyngor yn gweithio i ddeall effaith a deilliannau ei waith yn well, gan symud o ddull sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth i un sy'n canolbwyntio ar y person, a fydd yn helpu i gyflawni'i uchelgais o feithrin cydnerthedd mewn cymunedau. Daeth y panel i'r casgliad pellach fod y Cyngor yn arfer y swyddogaethau yn erbyn y dyletswyddau cyflawniad o fewn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Nododd yr Asesiad nifer o gryfderau a meysydd arloesi, gan gynnwys cydnabod:

- arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion aeddfed gyda dull 'Carfan RhCT';
- aeddfedrwydd ac effaith trefniadau rheoli cyflawniad ac 'edau aur' clir o ran dull o gynllunio gwasanaethau;
- rheolaeth ariannol a chynllunio cyllidebol cryf;
- dull cynhwysol a chydweithredol o weithio mewn partneriaeth;

- ymgorffori gofynion gwerth cymdeithasol yng nghadwyn gyflenwi'r Cyngor;
- swyddogaethau craffu a sicrwydd sydd wedi'u cefnogi'n dda;
- diwylliant cynhwysol a chefnogol; a
- llywodraethu clir ac effeithiol.

Adroddodd y Panel fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i newid ei arferion i gefnogi grymuso unigolion a chymunedau, a nododd bod modd gwneud gwelliannau pellach yn y meysydd yma:

1. **Adnoddau**
   Mae'r Cyngor yn cael ei annog i gymryd yr amser mae ei angen arno i wreiddio ei ddull mewn tystiolaeth a rhoi ystyriaeth gynnar i'r rôl fydd gyda'r gweithlu, elfennau digidol, data a chyfathrebu o ran cyflawni'r newidiadau y mae am eu cyflawni.
2. **Dangos Effaith a Deilliannau**
   Mae'r Cyngor yn cael ei annog i barhau â'r broses yma er mwyn datblygu'r sgiliau a'r capasiti fydd yn ei alluogi i:
   - Weithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddylunio eu mesurau effaith a deilliannau ar lefel y gymuned a'r Fwrdeistref Sirol.
   - Mesur y modd mae effaith a deilliannau yn amrywio ar draws ystod o grwpiau demograffig ac ardaloedd daearyddol.
   - Gwerthuso i ba raddau y mae'r dulliau ymgysylltu presennol yn darparu ar gyfer bod yn rhan o bethau, ac yn annog hyn.
3. **Datblygu Cydnerthedd y Gymuned**
   Dyma annog y Cyngor i wneud y canlynol:
   - Buddsoddi amser mewn dysgu o arfer mewn mannau eraill a chynnwys ei gymunedau a'i bartneriaid wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gydnerthedd y gymuned.
   - Deall y prif adnoddau galluogi a'u sefydlu, megis data, y gweithlu, y dull cyfathrebu ac ymgysylltu, systemau digidol at ddibenion atgyfnerthu'r rhaglen newid.
   - Nodi cyfleoedd i roi'r dull ar brawf, dysgu yn ei gylch a'i ailadrodd cyn ei roi ar waith yn ehangach.
   - Rhoi dull Cyngor cyfan ar waith o ran y newid, gan ofalu bod pob rhan o'r Cyngor yn deall sut y mae gofyn iddo addasu i greu'r newid diwylliannol mae am ei weld.


Roedd Ymateb y Cyngor i'r Asesiad Cyflawniad Panel yn amlinellu'r camau i gyflawni'r argymhellion. Mae crynodeb o'r rhain isod:

- Cyflawni Cynllun Trawsnewid wedi'i ddiweddaru'r Cyngor, sy'n canolbwyntio ar ymgorffori pedair colofn allweddol sef Cydnerthedd Cymunedol, Atal, Profiad Cwsmeriaid/Trigolion a "defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol, ac yn y modd gorau posibl", ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.
- Parhau i ddatblygu Strategaethau Allweddol y Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Ddigidol a Strategaeth y Gweithlu, sy'n allweddol i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau.
- Cryfhau ymhellach ddulliau o fesur deilliannau ac effaith a chyflawni Strategaeth Cymryd Rhan y Cyngor.
- Mynegi 'Ymrwymiad y Cyngor' i sefydlu a chefnogi perthynas newydd â'r gymuned a'r sector gwirfoddol, trwy gydweithio'n agos ag Interlink RCT a nodi ymchwil ac arfer da presennol trwy'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd.

Mae'r camau yma'n rhai hirdymor ac mae ein cynlluniau cychwynnol i'w cyflawni wedi'u datblygu dros y misoedd yn dilyn yr asesiad. Bydd ein cynnydd parhaus yn erbyn argymhellion yr Asesiad Cyflawniad Panel yn cael ei fonitro drwy Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor.

ADRAN 3A

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



EIN FFRAMWAITH RHEOLI CYFLAWNIAD

SUT MAE'R CYFAN YN CYD-FYND, GYDA CHANOLBWYNT AR HUNANWERTHUSO

ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL AC ADRODDIAD HUNANWERTHUSO 2025-2026

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi'r deilliannau y mae'r Cyngor am eu cyflawni gyda'r nod o sicrhau gwell deilliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i'n cymunedau. Mae cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol wedi'i ategu gan ein Fframwaith Rheoli Cyflawniad, diben y fframwaith yw gosod allan y trefniadau ar waith i helpu i gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd, rheoli ein risgiau a darparu atebolrwydd ar gyfer cyflawni.

Mae cynlluniau blaenoriaeth manwl ar waith i gefnogi cyflawniad ein Hamcanion Llesiant (dyma ein blaenoriaethau o fewn ein Cynllun Corfforaethol) ac mae'r cynlluniau yma'n anelu at reoli'r risgiau strategol i gyflawni ein hamcanion ac maen nhw'n cynnwys cerrig milltir, camau gweithredu a mesurau. Mae cynlluniau darparu gwasanaethau hefyd ar waith, ac fe'u cefnogir gan ystod eang o bolisïau, strategaethau a threfniadau gwaith.

Mae atebolrwydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a rheoli ein hadnoddau'n effeithiol yn cael eu cyflawni drwy swyddogaethau adrodd a chraffu'r Cyngor. I ddarganfod pam, pryd a sut mae ein cyflawniad yn cael ei fonitro, cymerwch olwg ar adran cyflawniad ein gwefan.

Yn yr Adroddiad Asesiad Cyflawniad Panel terfynol, nododd y Panel:

> ***...bod 'Edau Aur' glir o'r cynllun corfforaethol, y cynllun ariannol tymor canolig i gynllunio gwasanaethau, gyda her briodol gan y Prif Weithredwr ac uwch aelodau etholedig ar y lefel gorfforaethol. Roedd y panel o'r farn bod y Cyngor yn hunan-ymwybodol gyda dull aeddfed o ymdrin â newid.***

I gefnogi diwylliant cyflawniad y Cyngor, mae'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad yn cynnwys hunanwerthuso/asesiad amserol a chymesur ar lefel Gwasanaeth a Chorfforaethol. Mae ein Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau blynyddol wedi bod ar waith ers 2016. Anogir gwasanaethau i fod yn onest ac yn wrthrychol wrth gwblhau eu hunanwerthusiad. Mae swyddogion ar draws y Cyngor yn cael eu hannog i ymdrechu i ddarparu'r gwasanaethau gorau o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac mae'r Cyngor yn ystyried nad barn sefydlog sy'n cael ei gwblhau unwaith y flwyddyn yw hunanasesiad effeithiol, mae'n broses barhaus.

Mae'r hunanwerthusiad yn gofyn i wasanaethau fod yn glir ynghylch sut y maen nhw'n cyflawni, ac mae hyn yn gyson â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Er enghraifft, pa mor llwyddiannus ydyn nhw, sut y maen nhw'n gwybod, a nodi beth allen nhw ei wneud i wella.

Mae'r Hunanwerthusiad hefyd yn:

- Helpu gwasanaethau i wneud penderfyniadau gwell, rheoli risgiau a rhoi adborth mewn perthynas â'r angen am gymorth corfforaethol a chwmpas y cymorth hwnnw.
- Dangos gwerth am arian, y potensial ar gyfer newid mewn gwasanaeth, gwariant neu arbedion effeithlonrwydd a nodi effaith darpariaeth gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig.
- Galluogi Gwasanaethau Corfforaethol i nodi a blaenoriaethu anghenion cymorth gwasanaeth.
- Gweithredu fel y mecanwaith ar gyfer casglu gwybodaeth allweddol er mwyn galluogi adroddiadau statudol gwybodus mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Bioamrywiaeth.
- Cynorthwyo gwasanaethau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer archwiliadau neu arolygiadau a chyflawni gofynion deddfwriaeth berthnasol.

Mae'r model hunanwerthuso yn cael ei adolygu a'i adnewyddu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn ystyried adborth gan wasanaethau a'i fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben. Er enghraifft, yn 2025/26, yn unol ag agenda Trawsnewid y Cyngor a'r pedair colofn Trawsnewid a nodwyd, gofynnwyd i wasanaethau nodi sut y bydden nhw'n 'trawsnewid' gwasanaethau yn y tymor canolig i'r hirdymor ac, yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r model hunanwerthuso wedi'i ddatblygu fel bod modd i wasanaethau ddarparu gwybodaeth am yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy trwy'r pum Ffordd o Weithio a themâu trawsbynciol eraill sy'n llywio adroddiadau statudol.

Cwblhawyd 17 o hunanwerthusiadau gan wasanaethau ar gyfer 2025/26.

Unwaith eu bod nhw wedi'u cwblhau, mae'r hunanwerthusiadau a'r cynlluniau cyflawni'n cael eu hadolygu a'u herio gan Brif Weithredwr y Cyngor yn ystod sesiynau 1-i-1. Mae'r trefniant cadarn a sefydledig yma'n galluogi'r Prif Weithredwr i ddwyn swyddogion i gyfrif ac yn ceisio nodi meysydd lle mae angen gwelliant neu ffocws er mwyn gwella'n barhaus. Mae'r meysydd yma'n sail i ddarparu gwasanaethau a chynlluniau blaenoriaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae'r cyfarfodydd Her a Chymorth yma'n parhau i gael eu hystyried yn rhan annatod a gwerthfawr o'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad ac yn gyfle cadarnhaol i herio cyflawniad, archwilio materion a chyfleoedd gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am faterion trawsbynciol i'r Cyngor.

Mae pob Hunanwerthusiad a Chynllun Cyflawni wedi'u cwblhau ar gael ar wefan Mewnrwyd y Cyngor.

Mae'r Cynlluniau Cyflawni yn ddarostyngedig i drefniadau monitro sy'n cael eu cydlynu gan ein Carfan Rheoli Cyflawniad. Mae camau gweithredu perthnasol o Gynlluniau Cyflawni Meysydd Gwasanaeth yn cael eu tynnu drwodd i ffurfio sail y 'Cynlluniau Blaenoriaeth' sy'n dod o dan Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r cynlluniau blaenoriaeth yma'n sail i'r adroddiadau cynnydd sy'n cael eu cyflwyno'n chwarterol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Mae proses yr Hunanwerthusiad Gwasanaeth yn parhau i nodi ac ystyried ein heriau mwy strategol. Mae themâu allweddol a nodwyd gan y Prif Weithredwr o broses 2025 wedi llywio ein hasesiad o Weithgareddau Craidd a'r cryfderau a'r cyfleoedd / meysydd allweddol ar gyfer gwella ar gyfer y Cyngor, sydd wedi eu nodi yn Adran 3b.

ADRAN 3B

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF



ASESIAD O'N GWEITHGAREDDAU CRAIDD

ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL AC ADRODDIAD HUNANWERTHUSO 2025-2026

ASESIAD O'N 'GWEITHGAREDDAU CRAIDD'

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi cyfres o weithgareddau craidd sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn awgrymu ein bod ni'n defnyddio'r rhain fel fframwaith ar gyfer ein hunanwerthusiad. Serch hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod gweithgareddau ychwanegol y mae angen eu hasesu hefyd.

Mae adran ganlynol yr adroddiad yma wedi'i strwythuro o amgylch y rhestr hon o weithgareddau craidd; mae'r rhai sy'n cael eu hystyried fel y gweithgareddau craidd fel y'u diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u nodi â seren er eglurder:

- **Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu***
- **Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg***
- **Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu***
- **Rheoli Asedau***
- **TGCh a Gwasanaethau Digidol**
- **Caffael a Chomisiynu***
- **Partneriaethau**
- **Ymglymiad ac Ymgysylltiad**
- **Y Gymraeg**
- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
- **Sero-net**
- **Diogelu Corfforaethol**
- **Adborth Rheoleiddwyr**

Mae'r meysydd gwaith yma'n dylanwadu ac yn cefnogi cyfeiriad strategol y Cyngor, gan sicrhau bod gan y Cyngor strwythur cadarn o ran llywodraethu, atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae'n bwysig nodi bod yr holl wasanaethau, p'un a ydyn nhw'n wasanaethau rheng flaen neu wasanaethau swyddfa gefn / cymorth, yn elfennau allweddol o'r Cyngor. Maen nhw i gyd yn destun hunanwerthusiadau gwasanaeth blynyddol a chynlluniau cyflawni, ac maen nhw'n ymdrechu i wella ac i wneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau.

Mae canfyddiadau cyfunol yr Hunanwerthusiad Gwasanaeth (Adran 3A) a'r asesiad o weithgareddau craidd, sy'n ffurfio ein hunanasesiad cyffredinol, wedi'u cynnwys yn Nhabl 1. Mae camau gweithredu i wneud y gorau o effeithiau cryfderau a chyfleoedd cymorth / meysydd i'w gwella yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau darparu gwasanaethau ar draws y Cyngor, yn ôl yr angen.

Tabl 1: Canfyddiadau allweddol o'r hunanasesiad ac adolygiad o weithgareddau craidd

Cryfderau	Cyfleoedd / Meysydd i Wella
Llywodraethu a Sicrwydd: Mae gwasanaethau corfforaethol a rheng-flaen yn dangos llywodraethu cryf, rheolaeth fewnol gadarn, ac yn darparu gradd uchel o sicrwydd sefydliadol.	**Trawsnewid Gwasanaethau:** Mae Cynllun Trawsnewid y Cyngor ar waith ac mae angen gwaith parhaus i ymgorffori'r pedair thema trawsnewid yn y trefniadau gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys trawsnewid digidol lle mae tystiolaeth ein bod ni wedi cofleidio galluogwyr digido. Er hyn, rhaid inni ddefnyddio atebion digidol, awtomeiddio, ailgynllunio systemau, a deallusrwydd artiffisial ymhellach ar raddfa fawr, yn gyflym ac yn systematig er mwyn gwella cynhyrchiant, hygyrchedd gwasanaethau, mewnwelediad sefydliadol, a phrofiad y trigolyn.
Cydnerthedd a chyflawni gwasanaethau: Mae gwasanaethau'n parhau i gyflawni'n effeithiol er gwaethaf gweithredu mewn amgylcheddau cymhleth, lle mae galw'n uchel neu'n newidiol, gan ddangos cydnerthedd, addasrwydd, ac ymrwymiad proffesiynol cynaliadwy.	**Defnydd gwell o ddata a deallusrwydd:** Mae lle i gryfhau integreiddio data, dadansoddi rhagfynegol, a defnyddio tystiolaeth o ddeilliannau i gefnogi cynllunio, blaenoriaethu, mewnwelediadau data ac ymyrraeth gynharach.
Sicrwydd allanol: Adroddir ar ddeilliannau cadarnhaol arolygu, archwilio, achredu, neu asesiadau panel, gan roi hyder ychwanegol mewn safonau gwasanaeth, cydymffurfiaeth, a chyflawniad.	**Integreiddio gwasanaethau ac alinio ar draws cynghorau:** Mae newidiadau sefydliadol diweddar wedi alinio swyddogaethau cysylltiedig yn agosach, gan wneud gwell defnydd o arbenigedd a rennir a ddylai bellach ddarparu gwasanaethau mwy cydlynol ar draws y Cyngor.
Uchelgais strategol a gwelliant parhaus: Mae tystiolaeth glir o gynllunio gwasanaethau pwrpasol, ymrwymiad cryf i wella, a pharodrwydd ar draws gwasanaethau i foderneiddio, arloesi ac addasu modelau darparu lle bo angen.	**Atal ac ymyrryd yn gynnar:** Gallai buddsoddiad pellach a chydlynu corfforaethol parhaus yn y maes yma leihau'r galw yn y dyfodol, gwella deilliannau, a gwella cynaliadwyedd o fewn nifer o wasanaethau sydd dan bwysau uchel.
Cyflawni newid sefydliadol: Mae nifer o ailstrwythuriadau, trosglwyddiadau gwasanaeth, a newidiadau arweinyddiaeth wedi'u gweithredu'n llwyddiannus, gan greu sail gryfach ar gyfer alinio gwasanaethau, integreiddio a datblygu yn y dyfodol.	**Cynllunio'r gweithlu, ailgynllunio a datblygu talent:** Mae cyfle i adeiladu ar y trefniadau sydd ar waith, wedi'u llywio gan wybodaeth am ddata, i gryfhau ymhellach gynllunio olyniaeth a dulliau recriwtio, datblygu llwybrau gyrfa mewnol, ac adeiladu capasiti arbenigol mewn swyddogaethau sydd â blaenoriaeth.
Gallu'r gweithlu: Mae gennym ni weithlu ymroddedig a galluog, gyda llawer o enghreifftiau o broffesiynoldeb, hyblygrwydd, a buddsoddiad mewn datblygu staff, gan gynnwys defnydd effeithiol o lwybrau prentisiaeth a chynlluniau hyfforddi i raddedigion.	**Cyfleoedd asedau a gwneud y gorau o'u heffaith:** Mae cyfleoedd i gael mwy o werth o asedau, gan sicrhau bod gennym ni'r asedau cywir yn y lle cywir mewn amgylchedd sy'n newid, archwilio dulliau mwy masnachol lle bo'n briodol a, thrwy wneud hynny, optimeiddio ymhellach yr effeithiau cadarnhaol o fuddsoddiad cyfalaf a chynllunio ystadau.
Cyfraniad corfforaethol a gweithio mewn partneriaeth: Mae nifer o wasanaethau'n gweithredu fel galluogwyr corfforaethol pwysig, gan wneud cyfraniad sylweddol at flaenoriaethau ehangach y Cyngor, gweithgareddau trawsnewid, buddsoddiadau cyfalaf, a deilliannau i drigolion a chymunedau.	**Cynllunio a goruchwylio sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau:** Byddai cryfhau ymhellach y deilliannau a nodwyd a'r mesurau sylfaenol a'r berthynas rhwng gwerthuso gwasanaethau, cynllunio darpariaeth ac effaith fesuradwy yn gwella goruchwyliaeth gorfforaethol ac yn darparu tystiolaeth gliriach o'r manteision sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau, newid / trawsnewid gwasanaethau a buddsoddi yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid.

1. Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor a phob corff cyhoeddus osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth wneud hynny, mae disgwyl i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant hynny.

Ein Cynllun Corfforaethol 'Gweithio gyda'n Cymunedau', yn nodi ein pedwar Amcan Llesiant:

1. **POBL A CHYMUNEDAU** – Llesiant Cymdeithasol.
2. **GWAITH A BUSNES** – Llesiant Economaidd.
3. **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD** – Llesiant Amgylcheddol.
4. **DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG -** Llesiant Diwylliannol.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 3 maes i'w gwella o ran Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu, gyda datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 2.

Tabl 2: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd / Deilliannau
Mae angen i ni barhau i fod yn arloesol a darparu gwasanaethau mwy targedig ac effeithlon drwy ystyried yr holl opsiynau a chyfleoedd, ymchwilio i'r hyn y mae eraill yn ei wneud a chyflawni trawsnewidiad gwasanaethau parhaus.	Mae trefniadau ar waith ar draws y Cyngor, dan arweiniad Uwch Reolwyr y Cyngor, i nodi opsiynau i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon. Cefnogodd deilliant y trefniadau sefydledig yma y Cyngor i osod a chyflawni cyllideb refeniw gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Roedd hynny ar ôl i'r Cyngor orfod mynd i'r afael ag un o'r bylchau cyllidebol mwyaf y mae erioed wedi'i wynebu sef dros £30 miliwn ac, ar yr un pryd, sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn cael eu diogelu lle bynnag y bo modd.
Mae angen ymgorffori newid trawsnewidiol yn ein prosesau trwy ei gynnwys yn nhrefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.	Adolygwyd trefniadau trawsnewid y Cyngor a rhoddwyd Cynllun Trawsnewid wedi'i ddiweddaru ar waith sydd wedi'i strwythuro o amgylch pedair colofn: Cydnerthedd Cymunedol; Atal; Profiad Cwsmeriaid/Trigolion; a defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol, ac yn y modd gorau posibl. Mae'r rhain wedi'u hintegreiddio â threfniadau cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae'r pedwar colofn yn berthnasol i bob maes gwasanaeth ac yn cefnogi newid diwylliannol yn ein dull a'n proses feddwl i arwain a hwyluso trawsnewid ar draws y Cyngor ac ategu a galluogi cyflawni amcanion llesiant y Cynllun Corfforaethol. Mae'r gwaith yma hefyd yn cefnogi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol yr argymhelliad *"Dylai cyrff cyhoeddus gynnwys atal fel amcan strategol craidd mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol."*
Mae angen i ni barhau i ddefnyddio ein data yn ystyrlon – gan ei ddefnyddio i nodi tueddiadau'r dyfodol a llywio newid.	Mae cynnydd wedi'i wneud i gryfhau defnydd y Cyngor o ddata fel ased strategol. Mae dros 75% o systemau Haen 1 bellach wedi'u hymgorffori yn y platfform data corfforaethol, gan leihau silos data a galluogi un ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy. Mae hyn wedi cefnogi ehangu dangosfyrddau safonol ac adrodd hunanwasanaeth ar draws meysydd gwasanaeth i wella trefniadau rheoli cyflawniad

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd / Deilliannau
	gwasanaethau ymhellach, er enghraifft, mae'r rhaglen integreiddio data wedi cefnogi prosiectau fel Ymyrraeth Gynnar ac Atal, gan ddod â gwybodaeth o systemau lluosog ynghyd i gefnogi'r un farn ar blentyn a hefyd Lliniaru Llifogydd trwy gyfuno gwybodaeth Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid a setiau data synwyryddion i wella dealltwriaeth o risg, tueddiadau a galw. Mae'r mentrau yma wedi galluogi gwasanaethau i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg, targedu ymyriadau'n fwy effeithiol a deall pwysau ar wasanaethau yn y dyfodol yn well.

Gyda'i gilydd, mae'r cynnydd uchod wedi cyfrannu at gryfhau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau gwybodus, wedi galluogi nodi tueddiadau a galw sy'n dod i'r amlwg, ac wedi cefnogi deilliannau gwell a defnydd mwy effeithlon o adnoddau ar draws y Cyngor.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Adolygodd Uwch Reolwyr y Cyngor amcanion llesiant y Cyngor a phenderfynodd eu bod nhw'n aros yr un fath. Cyfarwyddodd hefyd waith i ddangos yn gliriach gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r angen i wasanaethau ddangos yn gliriach y deilliannau a'r effaith sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau. Roedd y gwaith yma'n cynnwys:

- Diweddaru trefniadau rheoli cyflawniad drwy Fframwaith Rheoli Cyflawniad diwygiedig i ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pump 'Ffordd o Weithio' ymhellach i mewn i Hunanwerthusiadau Gwasanaeth a Chynlluniau Cyflawni;
- Hyrwyddo gofynion y pum Ffordd o Weithio drwy amlygu enghreifftiau cadarnhaol yn Adroddiadau Cyflawniad chwarterol a diwedd blwyddyn y Cyngor; a
- Ymgorffori gwybodaeth ac astudiaethau achos sy'n canolbwyntio mwy ar ddeilliannau o fewn trefniadau adrodd ar gyflawniad, gan gydnabod bod hyn yn gofyn am ffocws parhaus wedi'i gefnogi gan atebion digidol a fydd yn cryfhau integreiddio data, mewnwelediad a dadansoddi rhagfynegol ymhellach i gefnogi cynllunio, blaenoriaethu ac ymyrraeth gynharach.

Cafodd y gwaith yma ei lywio hefyd gan adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd yn cynnwys 22 o argymhellion yn ymwneud â gwaith a gyflawnwyd gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mewn ymateb i'r adroddiad, fe wnaeth y Cyngor y pethau canlynol:

- Cyflwyno hyfforddiant i uwch swyddogion mewn cydweithrediad â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mehefin 2025 i godi ymwybyddiaeth o'r argymhellion ac ymateb y Cyngor; a
- Cyflwyno ymateb ffurfiol i'r argymhellion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Hydref 2025, gan roi cyfle i Aelodau graffu ar ymateb arfaethedig y Cyngor i'r argymhellion (sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus) ynghyd â'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud hyd yn hyn yn y meysydd yma. Yn dilyn craffu, darparwyd ymateb y Cyngor i'r Comisiynydd.

Mae modd dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion perthnasol sy'n gysylltiedig â'n hamcanion llesiant a'n gweithgareddau craidd drwy gydol y ddogfen yma.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y pŵer i archwilio cyrff cyhoeddus, i asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion llesiant hynny. Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad gan Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2025, ac roedd canfyddiadau'r archwiliad yn nodi: *Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant ac wedi ystyried sut y byddan nhw'n cael eu hadnoddau dros y tymor canolig, ond mae lle i wella monitro deilliannau hirdymor*.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2025. Roedd yn cynnwys copi o'r adroddiad terfynol 'Pennu Amcanion Llesiant' ac Ymateb y Rheolwyr y Cyngor (yn nodi'r camau gweithredu y dylai'r Cyngor eu cymryd i weithredu'r argymhellion). Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2026.

Canfyddiadau Asesiad Cyflawniad Panel

Dyma ganfyddiadau Asesiad Cyflawniad Panel y Cyngor yn ymwneud â chynllunio strategol:

- Mae arweinyddiaeth swyddogion gwleidyddol a phroffesiynol cryf, sefydlog a phrofiadol sy'n dangos ymrwymiad ar y cyd i wella deilliannau i ddinasyddion Rhondda Cynon Taf.
- Mae perthnasoedd effeithiol, parchus a phroffesiynol rhwng Aelodau a Swyddogion gyda lefelau priodol o her adeiladol.
- Mae 'diwylliant' cynhwysol a chefnogol, a ddatblygwyd dros y degawd diwethaf, sydd wedi creu'r amodau ar gyfer cydweithio dyfnach â phartneriaid, trigolion a busnesau. Mae hyn wedi creu cyfleoedd ar gyfer trawsnewid – nododd y panel mewn sawl cyfarfod ddull "Carfan Rhondda Cynon Taf (RhCT)".
- Ni nododd y panel unrhyw bryderon difrifol gan reoleiddwyr allanol. Mae tystiolaeth bod y Cyngor yn ymateb yn rheolaidd i ganfyddiadau ac argymhellion archwilwyr allanol a mewnol a bod camau gweithredu sy'n cael eu cynnig mewn ymateb i ganfyddiadau yn destun craffu a sicrwydd. Mae'r panel yn ystyried bod trefniadau craffu a sicrwydd y Cyngor yn gryf ac yn effeithiol.

Casgliad

Mae cynllunio strategol y Cyngor yn cael ei arwain gan y Uwch Reolwyr y Cyngor, mae'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n ddull cynhwysol o gefnogi a herio gwasanaethau wrth osod cynlluniau uchelgeisiol yn unol ag amcanion llesiant y Cynllun Corfforaethol. Mae gwaith wedi dechrau i ymgorffori'r pedair thema o'r Cynllun Trawsnewid mewn trefniadau gweithredol, a bydd angen i'r gwaith yma barhau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cefnogi a bod yr holl adnoddau ac offer sydd ar gael yn cael eu defnyddio. At ei gilydd, mae'r egwyddorion sy'n rhedeg drwy'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn hunanasesiad 2024/25 yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cael eu hymgorffori yn y rhaglen waith barhaus sy'n cael ei datblygu.

2. Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg

CYNLLUNIO ARIANNOL

Mae gan y Cyngor drefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig (CATC) sydd wedi'u hen sefydlu sy'n llywio'r gwaith o bennu'r gyllideb, gyda'r dull yn cydbwyso blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor â fforddiadwyedd, i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn y tymor canolig. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd y CATC a mabwysiadodd y Cyngor ddull cynhwysol i alluogi Aelodau etholedig i adolygu a chraffu ar y sefyllfa h.y. adroddir diweddariadau i'r Cabinet, y Cyngor llawn, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cylch Trafod Cyllideb Ysgolion. Mae'r trefniadau cynllunio ariannol cryf yn cael eu cefnogi gan fonitro ac adrodd effeithiol ar ein cyflawniad a phrosesau rheoli risg clir.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn hunanasesiad blynyddol 2024/25.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Strategaeth Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd:

Cymeradwyodd y cyfarfod llawn o'r Cyngor Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 a Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd (2025/26 tan 2027/28) ar 5 Mawrth 2025.

Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26:

Cafodd llunio Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 ei lywio gan ddull cynhwysfawr a sefydledig a oedd yn cynnwys ystyried cynlluniau a risgiau darparu gwasanaethau dros y tymor canolig; adolygu a herio gofynion cyllideb ar draws pob maes gwasanaeth, dan arweiniad Uwch Reolwyr y Cyngor; ac ymgysylltu â thrigolion / rhanddeiliaid. Galluogodd y dull yma i'r Cyngor i osod cyllideb gytbwys, yn gyfanswm o £668.179 miliwn, yn dilyn mynd i'r afael â bwlch yn y gyllideb o £36 miliwn drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd / ailgyflunio gwasanaethau gweithredol sylweddol ac arbedion gwasanaeth / gwariant penodol. Erbyn diwedd y broses roedd cyllideb refeniw a oedd yn galluogi diogelu gwasanaethau rheng flaen cymaint â phosibl a thargedu a diogelu adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y mae'r Cyngor yn eu blaenoriaethu, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, er mwyn cefnogi darparu gwasanaethau cynaliadwy.

Yn rhan o'r trefniadau ymgysylltu a'r adborth gan ymatebwyr, roedd y meysydd gwasanaeth pwysicaf i drigolion yn cynnwys gofal cymdeithasol ac ysgolion; roedd y meysydd yma'n cyfrif am oddeutu 63% o gyllideb refeniw gyffredinol y Cyngor.

Rhaglen Gyfalaf y Cyngor (2025/26 tan 2027/28):

Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd oedd £225.315 miliwn ac mae'n nodi'r blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf a fydd yn cael effaith tymor hir ar yr ardal o ran adfywio, seilwaith ac asedau adeiledig y Cyngor o ran optimeiddio eu defnydd a'u budd i gymunedau lleol. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad parhaus sylweddol mewn:

- adfywio canol trefi i gefnogi ailddatblygu safleoedd ac adeiladau allweddol a chynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol trefi;
- ysgolion, er mwyn cyflawni gwelliannau parhaus yn ansawdd yr amgylcheddau dysgu a'r cyfleusterau sydd ar gael, a sicrhau bod adeiladau ysgolion yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;

- priffyrdd, gan barhau i wella cyflwr ffyrdd, fel y dangosir gan ddangosyddion cyflawniad a adroddwyd;
- tai, drwy gefnogi tai mwy fforddiadwy ac addasu cartrefi pobl i helpu i gynnal eu hannibyniaeth;
- prosiectau lliniaru llifogydd; diogelwch tomenni glo; a phrosiectau lleihau carbon sy'n cefnogi uchelgeisiau datgarboneiddio'r Cyngor.

I gefnogi argymhelliad 46 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. *Rhaid i gyrff cyhoeddus osod eu cyllidebau blynyddol yn erbyn dangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru (gan ddilyn modelau tebyg yng Ngweriniaeth Iwerddon a Dinas Strasbourg).* Mae trefniadau gosod cyllideb, hunanasesu, cynllunio busnes a chynllunio corfforaethol y Cyngor yn parhau i ystyried nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (a dangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru) ac yn dangos cyfraniad y Cyngor at nodau llesiant cenedlaethol.

Mae un golofn o'n gwaith trawsnewid yn canolbwyntio ar atal, ac mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan o asesu gwasanaethau a gwariant ataliol y Cyngor a defnyddio diffiniadau y cytunwyd arnyn nhw. Yn ystod 2025/26 mae'r gwaith yma hefyd wedi cynnwys gwaith cydweithredol gyda CIPFA i lywio dysgu a rennir rhwng y Cyngor, CIPFA a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ochr yn ochr â deialog barhaus â Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith prosiect Gwariant Ataliol yn cyflawni argymhelliad adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 47: *"Dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r diffiniad o atal y cytunwyd arni rhwng Llywodraeth Cymru a fy swyddfa i fapio eu gwariant ataliol a buddsoddi'n gynyddol tuag at atal sylfaenol."* Yn ogystal, mae wedi cael ei gydnabod gan CIPFA a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyfeiriwyd ato hefyd yn adroddiad CIPFA 2025 Buddsoddi mewn Atal fel arweinydd y sector yng Nghymru.

Trafododd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 20 Ebrill 2026 yr 'Adroddiad Digonolrwydd Adnoddau - 'Barn' Statudol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd' a daeth i'r casgliad bod

> ***"Drwy'r adnoddau a amlinellir yn yr adroddiad yma, rydw i'n hyderus ein bod ni'n darparu digon o gefnogaeth ac adnoddau i'n holl Aelodau Etholedig, fodd bynnag, byddwn ni'n ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gynorthwyo Aelodau ymhellach yn y rôl bwysig y maen nhw'n ei chyflawni o ddydd i ddydd".***

Adroddiadau Archwilio Cymru

Adroddwyd ar archwiliad allanol o Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2024/25 i'r Cyngor llawn a'i gymeradwyo ganddo ar 22 Hydref 2025. Canlyniad hyn oedd barn archwilio ddiamod (h.y. glân).

Canfyddiadau yr Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau cynllunio a rheoli ariannol y Cyngor:

> ***Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull parhaus i'r ffordd y mae'n ymgymryd â'i gynllunio ariannol, ar ôl symud i ffwrdd o wneud cynllun unwaith y flwyddyn. Mae'r dull yma'n caniatáu i'r Cyngor fod yn barod iawn i nodi ac ymateb i bwysau cyllidebol, gan sicrhau perchnogaeth o'r sefyllfa ariannol ymhlith holl aelodau'r Cyngor ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ymatebion polisi a gwasanaeth arfaethedig yn ystod camau ffurfiannol.***
>
> ***Mae systemau llywodraethu clir ac effeithiol ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu heffeithiolrwydd. Nododd y panel fod cryfder penodol y Cyngor yn ymwneud â'i ddull o gynllunio ariannol sy'n caniatáu i'r Cyngor sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o'r pwysau sydd***

arno a nodi llinell barhaus o atebion cyllidebol posibl. Mae'r dull yma'n hwyluso ymgysylltu ac ymgynghori cynnar ar gyfer newid gydag Aelodau a Swyddogion a chyda'r gymuned ehangach.

Nododd y panel fod y dull o gynllunio ariannol a gymerwyd gan y Cyngor yn amlwg yn eiddo i 'garfan RhCT'. Mae ymgysylltiad â phob Aelod yng nghyfnodau ffurfiannol llunio'r gyllideb a rhoddir ystyriaeth ar y cyd i'r risg i gynaliadwyedd sy'n enghraifft nodedig o gyfranogiad, ymgysylltiad ac atebolrwydd ariannol.

Daeth y panel i'r casgliad bod gan Gyngor RhCT swyddogaethau cynllunio a rheoli ariannol corfforaethol cryf ar waith. Ystyriodd y panel fod y broses o gynllunio ac adolygu cylchred y broses gyllidebol yn barhaus, yn hytrach nac unwaith y flwyddyn, yn gryfder penodol i'r Cyngor, ac mae'n cael ei werthfawrogi gan staff ac Aelodau fel ei gilydd.

Casgliad

Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn gadarn ac wedi'u hymgorffori'n dda ar draws y sefydliad. Maen nhw'n cefnogi darparu a thrawsnewid gwasanaethau yn effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn gydnerth ac yn sefydlog yn ariannol yn ystod cyfnod sy'n debygol o gyflwyno heriau ariannol sylweddol.

CYFLAWNIAD

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024-2030, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn gosod y cyfeiriad cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod gan ddisgrifio'r weledigaeth, y pwrpas, yr amcanion llesiant a diffinio'r deilliannau, yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chraffu gan randdeiliaid. Ochr yn ochr â hynny, mae'r Cynllun Corfforaethol wedi ystyried Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Pum Ffordd o Weithio a'r Saith Nod Llesiant Cenedlaethol, ac wedi gosod Pedwar Amcan Llesiant.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 3 maes i'w gwella o ran cyflawniad. Mae datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 3.

Tabl 3: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: Cyflawniad

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd / Deilliannau
Dylid cynnal adolygiad o'r gyfres o wybodaeth sydd ar waith i benderfynu i ba raddau y mae effaith a deilliannau'n cael eu dangos a, lle bo angen, mae modd dechrau ymgorffori diwygiadau yn y trefniadau adrodd cyflawniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd hyn yn cymryd mwy na blwyddyn i'w weithredu'n llawn.	Bu'r Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â Chymuned Ymarfer Gwybodaeth Cyflawniad Cynghorau Cymru, sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n ceisio gwella'r defnydd o ddata o ran Persbectif Defnyddwyr Gwasanaeth a Mesurau sy'n Canolbwyntio ar Ddeilliannau ar draws Awdurdodau Lleol. Gan ddefnyddio'r canllawiau cenedlaethol a ddatblygwyd gan y grŵp yma, dechreuwyd gwaith yn 2025/26 i adolygu ein deilliannau a'n mesurau cyflawniad. Mae'r adolygiad yma wedi dod ar adeg pan rydyn ni yn y broses o ymgorffori Egwyddorion Marmot (sydd â'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ar draws y Fwrdeistref Sirol) ym musnes dyddiol pob maes gwasanaeth. Bydd ein hadolygiad o ddeilliannau yn rhaglen waith barhaus yn rhan o drefniadau cymorth i ddangos yn gliriach yr effeithiau o ddarparu gwasanaethau.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Mae'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn dangos aliniad clir rhwng Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor a:

- Dogfennau strategol allweddol y Cyngor gan gynnwys: y Strategaeth Cyllideb Refeniw, y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cofrestr Risg Strategol. Mae diweddariadau cynnydd yn cael eu hadrodd yn chwarterol yn rhan o Adroddiadau Cyflawniad yn ystod y flwyddyn.
- Cynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg, 2023-2028.
- Mae Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol y Cyngor yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth sy'n galluogi craffu.

Cwblhawyd rhaglen hyfforddi i reolwyr, gweithwyr sydd eisiau dod yn rheolwyr ac Aelodau'r Cabinet ar Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai oedd yn bresennol bod yr hyfforddiant wedi helpu i wella eu dealltwriaeth o'r fframwaith y maen nhw'n gweithio ynddo. Yn ogystal, drwy ymgorffori gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut mae wedi'i hintegreiddio

i drefniadau Perfformiad y Cyngor, rydyn ni hefyd wedi ymateb i argymhelliad Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.*4. "Rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am feysydd newid corfforaethol yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn ffordd sy'n gwella ansawdd a chysondeb gweithredu drwy hyfforddiant gorfodol a datblygu gallu."*Bydd rhaglen hyfforddi Fframwaith Rheoli Cyflawniad yn parhau i gael ei chyflwyno a'i datblygu yn 2026/27, gan gynnwys cyflwyno modiwl hyfforddi 'Bitesize' a fydd ar gael i bob aelod o staff.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â Chyflawniad.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau rheoli cyflawniad y Cyngor:

> ***...mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio a chyflawniad aeddfed sydd wedi'i ymgorffori ar draws y Cyngor.... Mae'r fframwaith yma'n cael ei ystyried yn sbardun cadarnhaol ar gyfer newid gan y Penaethiaid Gwasanaethau.***
>
> ***...mae'r Fframwaith Cynllunio a Chyflawniad yn galluogi'r Cyngor i adnabod ei hun yn dda ac i gael dealltwriaeth glir o'i gyfleoedd a'i heriau yn y dyfodol. Mae'r fframwaith cynllunio a chyflawniad wedi'i ddatblygu ymhellach yn ddiweddar i ymateb i argymhellion gan Archwilio Cymru a gwelodd y Panel dystiolaeth bod y Cyngor yn gwella ei ddealltwriaeth o 'effaith a deilliant disgwyliedig' y gwaith y mae'n ei wneud.... O ganlyniad, mae'r Cyngor yn gallu dangos 'Edau Aur' o ran y dull o gynllunio gwasanaethau a'r cynllun ariannol tymor canolig.***

Nododd y panel fod y fframwaith rheoli cyflawniad cryf sydd gan y Cyngor ar waith yn darparu llwyfan cadarn i nodi blaenoriaethau'n glir a'u cyflawni drwy systemau llywodraethu'r Cyngor..

Casgliad

Mae Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor yn cefnogi diwylliant rheoli cyflawniad cryf ledled y sefydliad ac yn darparu trefniadau clir i alluogi hunanwerthuso gwasanaethau, darparu gwasanaethau a monitro effeithiol. Yn rhan o'r ffocws parhaus i ddangos yn gliriach y deilliannau a'r effaith sy'n deillio o weithgareddau:

- Bydd adolygiad o ddeilliannau datganedig y Cyngor, mewn ymgynghoriad ag Uwch Reolwyr y Cyngor, yn cael ei ddatblygu i sicrhau eu bod nhw'n parhau i gynrychioli datganiad clir o fwriad, wedi'i ategu gan gyfres o fesurau ystyrlon, a bydd y rhain hefyd yn ystyried Egwyddorion Marmot; a
- Gwella'r defnydd o ddata a deallusrwydd drwy gryfhau integreiddio data a dadansoddi rhagfynegol a defnyddio tystiolaeth o ddeilliannau i gefnogi cynllunio, blaenoriaethu ac ymyrraeth gynharach.

RHEOLI RISG

Mae gan y Cyngor ddull clir o reoli risg, fel sydd wedi'i nodi yn ei Strategaeth Rheoli Risg. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys ei ddiben mewn perthynas â risg, h.y. rhoi *" ...sicrwydd annibynnol i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth mewnol"*. Mae hyn hefyd wedi'i ategu gan gyfrifoldebau penodol.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 1 maes i'w wella o ran Rheoli Risg, gyda datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 4.

Tabl 4: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: Rheoli Risg

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd / Canlyniadau
Dylid datblygu camau gweithredu tymor canolig i hirdymor i reoli ein risgiau strategol a'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol ar gyfer 2025/26, gan gyd-fynd felly â chynlluniau darparu gwasanaethau a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024 – 2030.	Cynhwyswyd camau lliniaru tymor hwy yn y Gofrestr Risg Strategol, gyda rhai camau tymor hwy yn cwmpasu oes y Cynllun Corfforaethol (hyd at 2030).

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Adolygwyd, heriwyd a chytunwyd ar risgiau strategol y Cyngor gan Uwch Reolwyr y Cyngor ar ddechrau'r flwyddyn ac wedi hynny cawson nhw eu monitro'n barhaus a chynhwyswyd diweddariadau gydag Adroddiadau Cyflawniad chwarterol y Cyngor.

Defnyddiwyd yr wybodaeth yn y Strategaeth Rheoli Risg a'r Pecyn Cymorth i ddatblygu adnodd hyfforddi ar gyfer Swyddogion ar draws y Cyngor. Cyflwynwyd y manylion yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2025, gyda chydlyniad clir â'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad.

Gweithgareddau allweddol eraill mewn perthynas â threfniadau rheoli risg y Cyngor, sef:

- Adolygwyd y Strategaeth Rheoli Risg ac adroddwyd arni i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2025, a chafwyd mân ddiweddariadau.
- Adroddwyd ar ddiweddariadau i'r Gofrestr Risg Strategol i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau mwy manwl i roi sicrwydd ynghylch cadernid y trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â:
  - Risg Strategol 11 – Adfywio ein cymunedau ar 4 Tachwedd 2025
  - Risg Strategol 24 – Cyngor carbon niwtral ar 16 Rhagfyr 2025
  - Risg Strategol 30 – Cefnogi ein Pobl Ifainc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar 3 Chwefror 2026

Yn fwy penodol, mae Argymhelliad 14 o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi *"Rhaid i wydnwch ac ymaddasu yn yr hinsawdd ddod yn flaenoriaeth graidd i wasanaethau cyhoeddus. Erbyn diwedd 2027,*

dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu risgiau hinsawdd ar gyfer eu cymunedau, gan ddiweddaru eu canfyddiadau bob pum mlynedd fel rhan o'u hasesiadau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus integreiddio'r canfyddiadau hyn i'w cynllunio corfforaethol a strategol.".O fewn y Cyngor. Mae'r risg i'r hinsawdd yn cael ei monitro drwy'r gofrestr risg strategol drwy Risg Strategol 26 – 'Rheoli effaith ffisegol newid yn yr hinsawdd ar ein cymunedau' ac mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phartneriaid drwy'r 3 gweithgor sy'n monitro cynnydd yn erbyn y ffrydiau gwaith o fewn Asesiad Risg Hinsawdd Cwm Taf Morgannwg.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â Rheoli Risg.

Canfyddiadau Asesiad Cyflawniad y Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau rheoli risg y Cyngor:

> ***Mae gan y Cyngor systemau ar waith sy'n nodi ac yn rheoli risg drwy ei gofrestr risg strategol. Adroddir ar risg i'r Cabinet bob chwarter ac ystyrir risg ar draws y Cyngor ac nid yn unig mewn meysydd gwasanaeth.***

Casgliad

Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor wedi'u hintegreiddio yn y Fframwaith Rheoli Cyflawniad ac maen nhw'n galluogi newidiadau mewn risgiau a risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg i gael eu nodi'n gynnar, eu hadolygu'n barhaus a'u hadrodd, a thrwy wneud hynny, maen nhw'n cefnogi cyflawni amcanion llesiant y Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau gwasanaeth lleol eraill.

3. Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu

Cynnydd parhaus wrth gyflawni'r Strategaeth Adnoddau Dynol 2023-28 (wedi'i gefnogi gan Gynllun y Gweithlu 2023-28), sydd wedi arwain at effeithiau cadarnhaol ar foddhad staff a chyfraddau trosiant staff ar draws y Cyngor, gyda recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth ar draws y Cyngor yn parhau i fod yn feysydd blaenoriaeth allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 ddau faes i'w gwella o ran Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu, gyda datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 5.

Tabl 5: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd/Deilliannau
Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio arbenigedd AD ar y Meysydd Gwasanaeth hynny sydd wedi nodi recriwtio a chadw staff fel risg allweddol.	Mae rhaglenni gwaith ar waith i gefnogi cynllunio a chadw'r gweithlu/olyniaeth drwy fentrau megis Cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau, cymwysterau gwaith cymdeithasol noddedig, datblygu arweinyddiaeth a hyfforddiant a dulliau arloesol megis hyblygrwydd gwell, ac maen nhw'n cael effeithiau cadarnhaol yn lleol ar draws gwasanaethau. Ochr yn ochr â hynny, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol i wasanaethau, mae gan rai gwasanaethau eu strategaethau gweithlu eu hunain (e.e. Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant). Yn gyffredinol, mae effaith gyfunol y mentrau yma'n cefnogi cyfeiriad cadarnhaol a bwriadedig trwy gyfradd trosiant sy'n gostwng ledled y Cyngor, er enghraifft, 11.51% yn 2023/24 gan ostwng i 9.04% yn 2025/26.
Mae angen i ni barhau i ddatblygu ein trefniadau cynllunio olyniaeth i gefnogi cynllunio gwasanaethau a chydnerthedd yn y tymor canolig i'r tymor hir.	
Mae angen i ni adeiladu ar y cynnydd o ran rhoi'r system iTrent ar waith (h.y. y System Cyflogres ac AD integredig). Bydd hyn yn caniatáu i'n rheolwyr gyrchu ac adolygu cyfres ehangach o ddata i fesur cydymffurfiaeth.	Mae cyfres o wybodaeth am y gweithlu ar gael i reolwyr mewn amser real, i gefnogi darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gyflwyno Hunanwasanaeth i Weithwyr i weithwyr a dangosfyrddau hyfforddi a chyflawniad newydd yn gwella goruchwyliaeth, monitro cydymffurfiaeth a chynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ochr yn ochr â hynny, rhoddwyd y newyddion diweddaraf i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ar 11 Mawrth 2026 (Dilyniant Data'r Gweithlu) ac mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn Adroddiad Cyflawniad y Cyngor mewn perthynas ag iechyd a diogelwch i wella atebolrwydd a chraffu ymhellach ar ddata gweithlu'r Cyngor.

Bydd y meysydd uchod yn parhau i gael blaenoriaeth wrth symud ymlaen, gyda chymorth trawsnewid digidol a hefyd gan ystyried gofynion newydd Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025, yn rhan o ddatblygiad parhaus trefniadau rheoli a chynllunio gweithlu'r Cyngor.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Cyflwynwyd adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Adnoddau Dynol, yn adrodd ar gynnydd yn ystod 2024/25, i'r Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2025. Cytunwyd i ychwanegu dau amcan newydd at y Strategaeth i adlewyrchu'r cyd-destun presennol, gan gwmpasu rheoli newid a thrawsnewid

digidol. Bydd adroddiad diweddaru ar gynnydd yn ystod 2025/26 yn cael ei gyflwyno i Uwch Reolwyr y Cyngor ac yna i'r Cabinet yn ystod hydref 2026. Mae arwyddion cychwynnol yn dangos cynnydd cadarnhaol:

- Parhaodd y Cyngor yn **Gyflogwr Cyflog Byw Go Iawn** a pharhaodd â mentrau recriwtio a chadw staff parhaus.
- Cynyddodd cyfranogiad yn yr arolwg staff i **20.8%**, ei lefel uchaf a gofnodwyd, gyda chanlyniadau gwell ar gyfer ymddiriedaeth, hyfforddiant, cyfleoedd datblygu a chymorth rheoli.
- Cefnogi trawsnewid gwasanaethau ac ailstrwythuro gwasanaethau ar draws y sefydliad i gefnogi gwell integreiddio, cydnerthedd ac effeithlonrwydd, er enghraifft, strwythur uwch reolwyr a rheolwyr cysylltiedig y Cyngor a gafodd ei roi ar waith o 1 Tachwedd 2025; ailstrwythuro ac ailfodelu'r Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant; a Gwasanaeth Gwella Ysgolion.
- Ffocws parhaus ar gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, fel y nodir yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Cynhaliodd Adroddiad Archwilio Cymru adolygiad o recriwtio a chadw yn rhan o'i raglen waith y cytunwyd arni a chyhoeddodd ei adroddiad, 'Heriau recriwtio a chadw – y bobl gywir ar yr amser cywir?', ym mis Ebrill 2026 a adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2026. Canfu Archwilio Cymru:

> ***Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth eang o swyddi sy'n anodd eu llenwi ac mae'n cymryd ystod o gamau i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw staff gyda rhai llwyddiannau. Mae hyn yn cynnwys ei raglen raddedig a phrentisiaeth.***
>
> ***Er bod y Cyngor yn gwerthuso rhai o'i weithgareddau, nid yw bob amser yn gwerthuso gwerth am arian ei ddull o recriwtio a chadw staff. Fe wnaethon ni hefyd ganfod bod lle i wella ei ddefnydd o ddata i helpu i dargedu gweithgaredd recriwtio a chadw staff.***

Mae'r Cyngor wedi derbyn yr argymhellion ac wedi nodi pa gamau y mae'n ei gymryd yn rhan o'r diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2026.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau cynllunio adnoddau dynol/gweithlu'r Cyngor:

> ***Mae gan y Cyngor hanes da o 'ddatblygu ei weithlu ei hun' ac mae'n falch o'i gyflawniadau wrth gyflogi pobl leol o fewn ei raglen prentisiaeth a'i rhaglen hyfforddeion graddedig. Mae'r garfan AD yn ymatebol i'r anghenion a nodwyd gan wasanaethau, gan gynnig cymysgedd o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu recriwtio a chadw ei weithlu ac mae'n gweld rhywfaint o gynnydd cadarnhaol o ran llenwi swyddi sy'n anodd eu recriwtio. Bydd y newid diwylliannol y mae'r Cyngor am ei wneud yn gosod gofynion pellach ar y garfan AD. Daeth y panel i'r casgliad bod angen rhoi sylw cynnar i'r strategaeth datblygu'r gweithlu i gefnogi'r newid diwylliannol sydd wedi'i gynllunio a bydd yn ystyriaeth bwysig i gefnogi'r rhaglen drawsnewid ac i alluogi'r swyddogaeth AD i addasu yn ôl yr angen.***

Casgliad

Mae trefniadau adnoddau dynol y Cyngor yn cefnogi'n gadarnhaol y ddarpariaeth a'r trawsnewidiad gwasanaethau ar draws y Cyngor ac yn sicrhau bod gan feysydd gwasanaeth drefniadau cydymffurfiol ac effeithiol ar waith. Bydd ffocws parhaus ar gryfhau cynllunio olyniaeth, moderneiddio arferion a gefnogir gan atebion digidol a mewnwelediadau data, parhau i feithrin capasiti arbenigol mewn swyddogaethau blaenoriaeth a chefnogi trawsnewid gwasanaethau.

4. Rheoli Asedau

Mae ystâd eiddo'r Cyngor yn cynnwys ystod eang o asedau tir ac adeiledig ac mae'n cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, depos a safleoedd gwaredu gwastraff, mynwentydd a safle amlosgfa, rhandiroedd, swyddfeydd, canolfannau cymunedol, cartrefi i'r henoed, cartrefi plant, theatrau ac eiddo buddsoddi, gyda threfniadau cadarn ar waith i gadw'r ystâd dan adolygiad a sicrhau bod gan y Cyngor yr asedau cywir yn y lle cywir.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 ddau faes i'w gwella o ran Rheoli Asedau, gyda datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 6.

Tabl 6: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: Rheoli Asedau

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd/Deilliannau
Mae angen inni sicrhau bod gyda ni'r asedau cywir yn y lle cywir a pheidio â chael ein cyfyngu gan ym mhle mae ein hasedau ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth rydyn ni'n ei chadw ac yn ei diweddaru am anghenion a gofynion ein trigolion, heddiw ac yn y dyfodol, yn llywio'r broses yma.	Mae cyfres gynhwysfawr o wybodaeth ar waith i reoli, cynnal a chynllunio gofynion asedau ac mae'r wybodaeth yma'n llywio ymgysylltiad parhaus â gwasanaethau i sicrhau bod asedau'n diwallu anghenion darparu gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol, gydag unrhyw newidiadau'n cael eu hystyried yn gyfannol â safbwynt hirdymor mewn golwg. Mae hyn yn amlwg drwy flaenoriaethu buddsoddiad a gwneud y mwyaf o ddefnydd o safleoedd swyddfa craidd ledled y Fwrdeistref Sirol, buddsoddiad sylweddol mewn asedau newydd/wedi'u moderneiddio ar draws yr ystâd ysgolion a gofal cymdeithasol i oedolion, gan sicrhau bod asedau'r Cyngor yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mewn lleoliadau hygyrch i'n trigolion. Cydnabyddir y bydd hon yn rhaglen waith barhaus.
Ar gyfer ein holl asedau adeiledig, mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n llawn ac yn cael eu rhedeg yn effeithlon, ac wedi'u hategu gan ein trefniadau monitro defnydd ynni.	

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar waith gyda chynnydd cadarnhaol cyffredinol wedi'i ddangos yn erbyn blaenoriaethau allweddol, a datganiad safbwynt wedi'i adrodd i'r Cabinet ar 22 Hydref 2025.

Mae asedau'r Cyngor wedi cael eu hadolygu'n gyson, gan ystyried gofynion gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor y bobl gywir yn y lle cywir i gefnogi darpariaeth gwasanaethau yn effeithlon ac yn effeithiol.

Parhaodd y Cyngor i fuddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni ei adeiladau, drwy'r Rhaglen Lleihau Defnydd o Garbon, gyda 43 o brosiectau wedi'u cyflawni a sicrhau ffynhonnell incwm gynaliadwy o bwyntiau gwefru cerbydau solar a thrydan. Bwydodd y gwaith yma i strategaeth ddatgarboneiddio gyffredinol y Cyngor, lle ar gyfer allyriadau ariannol math 1 a 2 ar gyfer 2024/25 (h.y. y rhai y mae'r Cyngor yn dylanwadu'n uniongyrchol arnyn nhw) gostyngodd dros 6% o'i gymharu â 2023/24.

Yn gysylltiedig â'r uchod, bu ffocws parhaus ar osod mannau gwefru cerbydau trydan, gyda chyfanswm o 164 wedi'u gosod yn ystod y flwyddyn, 121 o fannau ar gael i'r fflyd, 58 o fannau ar gael i'r cyhoedd a 117 ar gael i staff ac ymwelwyr.
Parhaodd y Cyngor hefyd i ymgysylltu â chymunedau i hwyluso Trosglwyddo Asedau Cymunedol lle'r oedd achosion busnes hyfyw ar waith ac, wrth symud ymlaen, bydd cyfleoedd pellach yn cael eu trin a'u trafod ar gyfer cydleoli gwasanaethau, gan gynnwys gyda phartneriaid.

Bu buddsoddiad cyfalaf parhaus yn isadeiledd ac asedau'r Cyngor, cyfanswm o £138 miliwn yn 2025/26, yn rhan o drefniadau rheoli asedau, sydd wedi cynnwys cyflawni prosiectau cyfalaf sylweddol yn llwyddiannus ar draws ysgolion, cartrefi gofal i'r henoed, prosiectau ynni a chynnal a chadw safleoedd adfer tir.

Mae trefniadau cynnal a chadw a phrofi cadarn ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau statudol y Cyngor mewn perthynas ag asbestos, legionella ac iechyd a diogelwch gan sicrhau bod asedau'r Cyngor yn addas at y diben.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni wnaed unrhyw waith adolygu penodol gan ein rheoleiddwyr mewn perthynas â threfniadau rheoli asedau'r Cyngor; fodd bynnag, cynhaliodd Archwilio Cymru astudiaeth genedlaethol: 'Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru' ac adroddodd ar 3 argymhelliad i awdurdodau lleol eu hystyried a chefnogi'r broses o nodi meysydd i'w gwella. Yn dilyn adolygiad, roedd y Cyngor o'r farn bod yr argymhellion, i raddau helaeth, eisoes yn cael eu rhoi ar waith a bydd yn defnyddio'r adroddiad i gefnogi gwelliant parhaus i'w drefniadau. Adroddwyd adroddiad Archwilio Cymru ac ymateb y Cyngor i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 30 Mawrth 2026.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Nid oedd unrhyw ganfyddiadau penodol mewn perthynas â rheoli asedau yn rhan o'r Asesiad Cyflawniad Panel.

Casgliad

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli asedau effeithiol ar waith sy'n cynllunio ac yn cyflawni rhaglen gynaliadwy a sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf a rhaglenni cynnal a chadw a datgarboneiddio, gan gefnogi portffolio asedau sy'n addas at y diben. Ochr yn ochr ag amgylchedd gweithredu newidiol ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau, bydd angen i'r trefniadau rheoli asedau sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gael yr asedau cywir yn y lle cywir a bod effeithiau cadarnhaol yn cael eu hoptimeiddio, gan gynnwys o gyfleoedd masnachol lle bo'n briodol ac yn unol â Strategaeth Gyfalaf y Cyngor.

5. TGCh a Gwasanaethau Digidol

Mae'r Cyngor wedi parhau â'i enw da o weithredu newid digidol, gan gydnabod yr angen i wneud mwy yn yr amgylchedd cyflym yma. Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cryf o ran cefnogi newidiadau sefydliadol a gwasanaethau drwy gyflawni ei Strategaeth Ddigidol 2022 – 2026, gyda'r dull yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ac yn gyson â'r gofynion fel y'u nodir yn y Strategaeth Ddigidol Genedlaethol i Gymru. Mae ein Strategaeth yn cynnwys pedwar ffrwd waith: Datrysiadau Digidol a Dylunio Gwasanaethau; Mewnwelediad a Deallusrwydd Data; Sgiliau Digidol, Dysgu a Chynhwysiant; ac Isadeiledd Digidol.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 ddau faes i'w gwella o ran TGCh a Gwasanaethau Digidol, gyda datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 7.

Tabl 7: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: TGCh a Gwasanaethau Digidol

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd/Deilliannau
Mae angen i ni barhau i drin a thrafod technoleg megis Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid / defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen i ni hefyd barhau i drin a thrafod yr hyn y mae eraill yn ei wneud a lle bo'n berthnasol, dysgu oddi wrthyn nhw.	**Mae'r maes yma i'w wella wedi'i ddatblygu trwy'r ffrwd waith Datrysiadau Digidol a Dylunio Gwasanaethau ac mae'n cefnogi Cynllun Trawsnewid Profiad Cwsmeriaid/Trigolion y Cyngor.** Mae meysydd allweddol o gynnydd yn cynnwys: ▪ Mae adolygiadau golwg cyntaf wedi'u cwblhau ar bwyntiau mynediad Gwasanaethau i Oedolion, Gwasanaethau i Blant, Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau Gwastraff a byddan nhw'n cael eu defnyddio i lywio cyfleoedd i ailfodelu gwasanaethau er mwyn darparu gwell gwasanaeth cwsmeriaid i'n trigolion a'n defnyddwyr gwasanaeth a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. ▪ Mae Llwyfan Profiad Cwsmeriaid wedi'i gaffael y mae modd ei raddio i ddiwallu anghenion presennol a dyfodol y Cyngor a'n cwsmeriaid. Bydd yr ateb yma'n darparu llwyfan cyfunol ar draws llawer o wasanaethau'r Cyngor, gan alluogi un olwg ar y cwsmer yn well gyda nodweddion hunanwasanaeth gwell i gynnig ffordd effeithlon a thryloyw i bobl ofyn am a monitro cynnydd eu gwasanaeth. Bydd y datrysiadau Rheoli Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth (ITSM) a Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) presennol yn cael eu defnyddio i ddechrau, tra ar yr un pryd bydd systemau ehangach y Cyngor yn cael eu hadolygu i'w cyfuno yn y dyfodol i'r llwyfan yma, lle mae'n fuddiol gwneud hynny, gan wella ein gallu i alluogi prosesau digidol awtomataidd o'r dechrau i'r diwedd, manteisio ymhellach ar Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a lleihau cymhlethdod ein hystâd dechnoleg. ▪ Aethpwyd ymlaen â nifer o raglenni digidol ehangach, yn enwedig gyda Gwasanaethau'r Amgylchedd, Hunanwasanaeth Adnoddau Dynol a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhaglenni yma wedi cynnwys nodi cyfleoedd gwerth uchel, ailgynllunio prosesau, a darparu atebion digidol sy'n gwella effeithlonrwydd gweithredol a'r profiad. Rydyn ni wedi cydweithio â chyrff cenedlaethol, awdurdodau cyfoedion, a chyflenwyr, gan gyfrannu at ystod o weithgareddau sy'n cynnwys meysydd cyflawni allweddol megis y Grŵp Awtomeiddio Prosesau Robotig Deallusrwydd Artiffisial Cenedlaethol a DiSC Cymru (Digidol mewn Gofal Cymdeithasol), sef rhaglen bartneriaeth

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd/Deilliannau
	Cymru gyfan sy'n canolbwyntio ar drawsnewid digidol mewn gofal cymdeithasol. Ei bwrpas yw gwella sut mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn defnyddio offer digidol, data a thechnoleg mewn ffordd gydlynol a chynaliadwy ledled Cymru. Estynnwyd y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) ar draws y Cyngor i drin a thrafod achosion defnydd ymhellach a sut y gellid defnyddio'r dechnoleg orau er budd y Cyngor. Mae'r gwaith wedi canolbwyntio i ddechrau o fewn Gofal Cymdeithasol, gan geisio gwneud y mwyaf o ddysgu a manteision Microsoft CoPilot ac adnodd sy'n cael ei bweru gan AI o'r enw Sgript, sy'n trawsnewid sain, nodiadau a chynnwys arall yn ffurfiau digidol ar gyfer llif gwaith pellach. Mae'r gwaith wedi dangos manteision, gan gynnwys llai o faich gweinyddol, cynhyrchiant gwell a lles staff gwell.
Mae angen i ni adolygu ein gwefan a sicrhau bod gwybodaeth y gofynnir amdani'n rheolaidd yn hawdd i'w chanfod ac yn gywir. Bydd modd i hyn helpu i wella profiad y cwsmer a lleihau nifer y galwadau sy'n cael eu derbyn gan ein canolfan alwadau gan ganiatáu iddyn nhw ganolbwyntio ar y galwadau pwysicaf. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'n trigolion dderbyn y gwasanaeth gorau posibl trwy 'fynd ar-lein'.	**Mae'r maes yma i'w wella wedi'i ddatblygu drwy'r Datrysiadau Digidol a Dylunio Gwasanaethau gyda'r meysydd allweddol o gynnydd isod:** ▪ Rydyn ni wedi adolygu ein cynnwys ar draws meysydd allweddol y wefan gan ganolbwyntio ar ddiweddaru gwybodaeth, gwella cywirdeb a gwneud cynnwys yn fwy cryno a haws i'w ddeall yn seiliedig ar ymchwil trigolion ac adborth defnyddwyr. ▪ Mae ein Polisi gwefan hefyd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r dirwedd ddigidol sy'n newid, gan gynnwys y defnydd priodol o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel Deallusrwydd Artiffisial (AI). Yn ogystal â hyn, mae llwyfan y wefan wedi'i wella i elwa o'r dechnoleg ddiweddaraf, gan alluogi cipolwg ar ansawdd cynnwys, optimeiddio peiriannau chwilio, gwella hygyrchedd a phrofiad y defnyddiwr. Mae'r gwaith yma'n helpu i lywio datblygiad strategaeth gyswllt ledled y Cyngor drwy sicrhau bod modd i drigolion ddod o hyd i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw yn gyflym ar-lein, gan geisio lleihau cyswllt y mae modd ei osgoi a chaniatáu i wasanaethau ganolbwyntio ar ymholiadau mwy cymhleth. Mae hefyd yn cyd-fynd â'n gwaith ehangach i ail-lunio drysau ffrynt y Cyngor (y prif bwyntiau cyswllt rhwng trigolion a gwasanaethau'r Cyngor) gan greu dull mwy cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at y gwasanaeth cywir ar yr amser cywir. Mae camau gweithredu ar waith yn ein cynllun cyflawni i gyflawni hyn.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Roedd gwaith allweddol arall a gyflawnwyd drwy ffrydiau gwaith y Strategaeth yn cynnwys:

Deallusrwydd a Mewnwelediad Data

Mae data yn cael ei gydnabod fel ased strategol y mae modd ei harneisio i sbarduno newid gweithredol a strategol. Mae gwaith yn parhau i adeiladu safbwyntiau cyfannol ar wybodaeth.

- Mae'r garfan Data a Mewnwelediadau Corfforaethol wedi hyrwyddo dull cydweithredol ar draws y sefydliad i gynorthwyo i leihau silos data gyda rhaglen waith barhaus ar waith i ymuno â llwyfan data corfforaethol, gan alluogi dull mwy integredig o reoli data a'i ddefnydd i ddatblygu mewnwelediad a llywio penderfyniadau'n well. Mae'r dull yma'n arwain at lai o ddibyniaeth ar offer adrodd trydydd parti ac wedi galluogi datblygiad dangosfyrddau data, gan sicrhau bod llawer o feysydd gwasanaeth yn elwa o fewnwelediad mwy amserol, dibynadwy a safonol.
- Mae'r gwaith i ymestyn creu mewnwelediadau a deallusrwydd data wedi darparu sylfeini cryf i ganiatáu datblygu dadansoddeg ragfynegol, sydd bellach yn helpu meysydd gwasanaeth i ragweld pwysau ac ymateb yn gynharach, er enghraifft:
  - Gwasanaethau Gwastraff i gynorthwyo rhagweld y galw am fagiau ailgylchu, gwella rheolaeth stoc ac effeithlonrwydd gweithredol.
  - Rheoli Perygl Llifogydd i gysylltu achosion a digwyddiadau i nodi dangosyddion perygl llifogydd cynnar.
  - Plant sy'n Derbyn Gofal a Digartrefedd – helpu i ragweld galw yn y dyfodol, gan alluogi ymyrraeth gynharach a chynllunio adnoddau mwy effeithiol.
- Rydyn ni wedi cryfhau ein galluoedd data, ymchwil a digidol drwy'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI). Meithrin capasiti mewnol ar gyfer ymchwil a dadansoddi a meithrin diwylliant o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata i wella deilliannau iechyd yn y dyfodol i'n trigolion.
- Rydyn ni wedi parhau i gynnal ein rhwymedigaethau deddfwriaethol diogelu data drwy gynnal strwythurau llywodraethu cadarn a sicrhau defnydd cyson o ddogfennaeth allweddol gan gynnwys cytundebau rhannu data, hysbysiadau preifatrwydd ac asesiadau effaith diogelu data.

Sgiliau Digidol, Dysgu a Chynhwysiant:

Mae gwaith wedi'i wneud i alluogi cyfleoedd i staff, aelodau etholedig a phobl yn ein cymuned wella sgiliau, datblygu cymhwysedd digidol, meithrin hyder a mynediad at gymorth digidol.

Mae'r meysydd allweddol a symudwyd ymlaen yn cynnwys:

- Darparwyd cymorth mabwysiadu atebion digidol yn rhan o welliant wedi'i dargedu ar gyfer staff ac aelodau etholedig yn rhan o weithredu technoleg, prosesau a phrosiectau newydd. Er enghraifft, deallusrwydd artiffisial.
- Defnyddiwyd sesiynau byr yn effeithiol i godi ymwybyddiaeth a sgiliau staff ac aelodau etholedig ar ystod o bynciau.
- Mae hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch a chydymffurfiaeth ar gyfer Seiberddiogelwch a Diogelu Data wedi codi ymwybyddiaeth a chryfhau gwybodaeth i leihau risg i'r Cyngor ac Ysgolion.
- Mae Strategaeth Ddigidol Ysgolion a rhoi HWB ar waith wedi cael eu cefnogi fel galluogwr allweddol i'r Cwricwlwm Digidol.
- Mae gweithgareddau yn y gymuned wedi'u cyflwyno i gynyddu hyder ac ymwybyddiaeth ein trigolion. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymwybyddiaeth o Lythrennedd yn y Cyfryngau gydag Ofcom a Dydd Gwener Digidol yn ein Llyfrgelloedd i wella hyder pobl wrth ddefnyddio technoleg.
- Sicrhau bod safonau hygyrchedd yn cael eu monitro a bod ein gwefan yn cael ei haddasu yn unol â hynny, a darparu llinell synhwyraidd i'r rheini sy'n drwm eu clyw.

Isadeiledd Digidol

Mae'r Gwasanaeth wedi adeiladu sylfeini technegol cadarn sy'n hanfodol ar gyfer galluogi a chynnal trawsnewid digidol ar draws y sefydliad. Rydyn ni wedi parhau i fuddsoddi yn ein seilwaith craidd, gan

foderneiddio ein hystâd cymwysiadau, optimeiddio systemau presennol a lleihau cymhlethdod i greu amgylchedd technoleg sefydlog a diogel sy'n cefnogi'r Cyngor yn effeithiol. Aeth gwaith allweddol rhagddo i gryfhau ein hisadeiledd yn ystod 2025/26, mae enghreifftiau'n cynnwys: Gweithredu datrysiad storio data newydd; Gweithredu datrysiad Gwrthfeirws gwell; Gwelliannau i gyfleuster Adfer ar ôl Trychineb y Cyngor; Gweithredu Canolfan Derbyn Larwm Achub Bywyd newydd; Mudo holl ddyfeisiau Microsoft y Cyngor i Windows 11; Isadeiledd rhwydwaith wedi'i adnewyddu yn y safleoedd gofynnol; Cefnogi Ysgolion i fudo i ddatrysiad System Gwybodaeth Reoli (MIS) newydd; a Chefnogi Gofal Cymdeithasol i gyflwyno'r datrysiad Cysylltu Gofal newydd.

Mae Seiberddiogelwch a Chydnerthedd yn parhau i fod yn hanfodol. Cynhaliwyd gwaith i ddiogelu, atal a sicrhau bod y Cyngor yn barod i ymateb yn effeithiol i ymosodiadau. Cyflawnwyd ail-achrediad PSN unwaith eto, ac rydyn ni wedi integreiddio ymhellach ein ffyrdd o weithio gyda Chanolfan Gweithrediadau Diogelwch (SOC) Cymru i ddarparu gwell canfod ac ymateb i fygythiadau. Mae sicrwydd seiber yn nodwedd fel risg strategol sy'n cael ei monitro yng Nghofrestr Risg Strategol y Cyngor yn rhan o adroddiad cyflawniad chwarterol y Cyngor i'r Cabinet, y cyfeirir ato yn Risg 20 yn rhan o drefniadau llywodraethu, caiff Sicrwydd Seiber ei fonitro, ei herio a'i graffu drwy'r Bwrdd Sicrwydd Seiber.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â

Chanfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau TGCh a digidol y Cyngor:

> ***Mae'r Cyngor yn ymgymryd ag uwchraddio isadeiledd gan gynnwys ei system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) a'i wefan i wella profiadau cwsmeriaid. Mae carfan sydd â'r gallu i adolygu ac ailgynllunio prosesau busnes hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r swyddogaethau digidol technegol. Bydd y gallu cynyddol yma'n cefnogi uchelgeisiau trawsnewid y Cyngor yn uniongyrchol i wella profiad y defnyddiwr a lleihau costau. Mae gwaith i ddatblygu gallu gwyddorau data hefyd ar y gweill, er ei fod yn llai aeddfed na'r swyddogaeth dechnoleg.***

Casgliad

Mae'r Cyngor wedi parhau â'i hanes cadarnhaol o weithredu newid digidol a sicrhau bod cydnerthedd a diogelwch isadeiledd TG y Cyngor yn addas at y diben. Bydd y Gwasanaeth TGCh a Digidol yn parhau i fod yn ganolog wrth alluogi gwasanaethau ar draws y Cyngor i ddefnyddio atebion digidol i drawsnewid ac ailgynllunio darpariaeth ac optimeiddio cyfleoedd integreiddio data a mewnwelediad data i wella cynllunio gwasanaethau, cynhyrchiant a chydnerthedd ymhellach, a hefyd hygyrchedd gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau a phrofiad trigolion.

6. Caffael a Chomisiynu

Rydyn ni'n parhau i gryfhau ein hymagwedd at Gaffael Cynaliadwy, drwy ein Strategaeth Comisiynu, Caffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2024/2030. Mae ein cynnydd yn gadarnhaol ar y cyfan, ac rydyn ni'n parhau i ymdrechu i wneud y mwyaf o'r gwerth, gan gynnwys y gwerth cymdeithasol, yn ein contractau. Yn ystod 2025/26 fe wnaethon ni gynllunio a gweithredu gofynion newydd a osodwyd ar y Cyngor mewn perthynas â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, a ddaeth i rym yn ystod mis Mawrth 2026. Yn ogystal, rheolodd y gwasanaeth y newid i brosesau newydd fel y penderfynwyd gan Ddeddf Caffael 2023. Yn 2025/26, roedd £248 miliwn (67%) o wariant y Cyngor gyda chyflenwyr ledled Cymru, ac o'r cyfanswm yma, gwariwyd £207 miliwn trwy gyflenwyr a oedd wedi'u cofrestru yn Rhanbarth y Fargen Ddinesig, ac roedd £92 miliwn ohono gyda chyflenwyr a oedd wedi'u cofrestru yn Rhondda Cynon Taf.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 un maes i'w wella o ran Caffael a Chomisiynu, gyda datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 8.

Tabl 8: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: Caffael a Chomisiynu

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd/Deilliannau
Mae angen i ni gyflwyno ein pecyn cymorth carbon ar draws contractau allweddol gyda'r bwriad o symud o Haen 1 i Haen 2 o adrodd i Lywodraeth Cymru.	Roedd y gwaith i gyflawni cynnydd yn y maes gwella yma'n arafach nag a ragwelwyd yn ystod 2025/26 ac roedd hyn oherwydd yr adnoddau ychwanegol a oedd eu hangen i weithredu'r ddwy Ddeddf a nodwyd uchod. Adroddwyd diweddariad i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 3 Gorffennaf 2025. Mae'r Cyngor wedi gweithio gydag awdurdodau cyfagos ac wedi nodi mecanwaith addas a chyson sy'n anelu at symud i ffwrdd o'r adrodd Haen 1 a bydd yn faes ffocws yn ystod 2026/27 a thu hwnt.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Cydymffurfiaeth gyfreithiol a chyflawni gwerth cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth Caffael yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni contractau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac, lle bynnag y bo'n bosibl, yn ychwanegu gwerth i'n cymunedau.

Cefnogodd y Gwasanaeth Caffael Feysydd Gwasanaeth y Cyngor i ddyfarnu dros 130 o gontractau, yn amrywio o ran gwerth, cymhlethdod a natur.

Mae'r dirwedd gyfreithiol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddi wedi newid yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae Gwasanaeth Caffael y Cyngor wedi hwyluso'r newid i sicrhau cydymffurfiaeth. Gosododd y Deddfau – sef Deddf Caffael 2023, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025, a dyletswyddau caffael Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (SPPP), a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2026 – ddyletswyddau gweinyddol ychwanegol ar y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth; y nod oedd cynyddu tryloywder ar draws y Sector Cyhoeddus yn y DU. Cymerodd y Cyngor gamau i sicrhau bod y gofynion yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys:

- **Adolygwyd a diweddarwyd Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.**
- **Newidiadau i ddogfennaeth tendr safonol.**

- **Gweithdai Prif Swyddogion a gynhaliwyd i godi ymwybyddiaeth.**

Roedd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) hefyd yn gosod gofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i gymryd pob cam posibl i wella lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal drwy ei weithgareddau caffael. Roedd y Cyngor mewn sefyllfa dda iawn i gyflawni'r cyfrifoldeb cyfreithiol yma gan fod y trefniadau yma eisoes ar waith trwy ein prosesau gwerth cymdeithasol:

Mae enghreifftiau o'r Gwerth Cymdeithasol a sicrhawyd yn ystod 2025/26 yn cynnwys:

Cymru lewyrchus

- **46 o swyddi wedi'u creu**, a **50 o swyddi wedi'u cadw** gan y cyflogwr yn dilyn dyfarnu neu ymestyn y contract.
- **44 cyfle prentisiaeth**
- Mae ein Cyflenwyr/Contractwyr hefyd wedi darparu **1,174 awr** o gymorth wedi'i dargedu o ran gweithgareddau cwricwlwm ac addysgol ar gyfer ysgolion a cholegau lleol.
- Mae **7,821 awr** a **£52,480** ychwanegol wedi mynd tuag at ddarparu rhagor o gyfleoedd i fusnesau lleol a syniadau arloesol e.e. darparu cyngor arbenigol ar fusnes.
- Mae **5,432 o wythnosau** wedi cael eu treulio ar uwchsgilio staff presennol ar gymwysterau galwedigaethol.
- Yn ystod cyflawni'r contractau sy'n cael eu monitro, mae **£7,4958,672** wedi'i wario yn y gadwyn gyflenwi leol, gan wella'r economi leol ymhellach a chefnogi busnesau lleol.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- Mae **£13,920** a **995 o oriau** wedi'u hymrwymo i gefnogi grwpiau cyflenwyr a chymunedol i hyrwyddo mentrau newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon. Mae **250 o oriau** wedi cael eu datgan hyd yma.

Cymru gydnerth

- Mae ein Contractwyr wedi ymrwymo i **1,232 o oriau** a **£57,588** tuag at ddiogelu'r amgylchedd a chefnogi cadwraeth amgylcheddol a bioamrywiaeth leol. Yn ystod 2025/26, mae **£19,575** a **94 awr** wedi'u cyflwyno hyd yn hyn. Mae enghreifftiau o'r mentrau yma'n cynnwys casgliadau sbwriel a drefnir trwy Cadwch Gymru'n Daclus a rhoddion i Ganolfan Addysg Ymwelwyr Alun Maddox ym Mryn Pica.

Cymru iachach

- Mae **£102,230** a **3,271** o oriau wedi'u hymrwymo i greu cymuned iachach a gwella lles staff. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyfraniadau i gefnogi Llamau i fynd i'r afael â digartrefedd yn RhCT, yn ogystal â chyfraniadau gwerth **£2,347** i gyflwyno ymgyrchoedd iechyd meddwl i gefnogi staff sy'n gysylltiedig â'r contractau.

Cymru sy'n fwy cyfartal

- Mae **63 o gyfleoedd cyfwerth ag amser llawn** wedi'u creu i drigolion sydd wedi bod yn ddi-waith am o leiaf 6 mis.
- Mae ein contractwyr hefyd wedi darparu **225 awr o gymorth i ddod o hyd i waith i bobl ddi-waith** a phobl sy'n gadael gofal, trwy fentora ynghylch gyrfaoedd, ffug gyfweliadau a chyngor ar CV.
- Yn ystod cyflawni'r contractau sy'n cael eu monitro, mae'r cyflenwyr/contractwyr wedi ymrwymo i **1,214 o wythnosau o brofiad gwaith**, gan gefnogi Carfan Materion Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant y Cyngor gyda'u cyrsiau GofaliWaith a Chynllun Sgiliau Gwaith yr haf, gyda **109 o wythnosau** wedi'u cyflwyno hyd yn hyn.
- Mae **£6,960** wedi'i ymrwymo i 'Arloesi ar gyfer Cymru fwy cyfartal'.

Cymru o gymunedau cydlynus

- Mae cyfanswm o **4,224 awr** a **rhodd ariannol gwerth £193,510** wedi'u dyrannu i gefnogi grwpiau prosiectau cymunedol a chronfeydd cymunedol a gaiff eu gweinyddu gan y Cyngor, gan ddarparu cymorth i bobl ddifreintiedig, pobl hŷn, pobl anabl a phobl agored i niwed, yn ogystal â'u teuluoedd.
- Yn ogystal â hynny, mae cyfanswm rhoddion contractwyr gwerth **£32,653** wedi cefnogi Banciau Bwyd Ymddiriedolaeth Trussell; noddi timau chwaraeon lleol; adfywio mannau cymunedol; Dylunio ac argraffu taflenni/llyfrynnau ar gyfer grwpiau cymunedol i hyrwyddo gweithgareddau; Rhoi gweithgareddau a diwrnodau allan i blant agored i niwed e.e. Zipworld, tocynnau sinema, ac ati; Sesiynau ffrwythau a llysiau i hyrwyddo bwyta'n iach a chyflwyno coginio gyda'n gilydd mewn ysgolion cynradd; Rhoi wyau Pasg i'n plant sy'n derbyn gofal.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi achlysuron diwylliannol Cymru, mae **3,682 o oriau** wedi cael eu hymrwymo gan gontractwyr, gyda **459 o oriau** wedi'u cyflawni hyd yn hyn. Mae rhodd ariannol gwerth **£8,500** hefyd wedi'i buddsoddi i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg o fewn gweithlu'r contractwr ac i gymryd rhan mewn achlysuron diwylliannol, celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau treftadaeth Cymru, gan gynnwys cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

Ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael

Mae'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau, gwaith a gwasanaethau a gaiff eu caffael yn cyfrif am oddeutu 75% o gyfanswm ôl troed carbon y Cyngor (ôl troed diweddaraf yn seiliedig ar flwyddyn ariannol 2024/25).

Mae cyfrifiad ôl troed carbon cyflenwr yn cael ei gwblhau gan ddefnyddio 'dirprwyon ariannol'. Mae hyn yn golygu bod swm enwol o garbon yn cael ei ddyrannu am bob punt a gaiff ei wario. Gelwir hyn yn ddull adrodd Haen 1. Derbynnir mai dim ond amcangyfrifon dangosol ar allyriadau y mae adrodd Haen 1 yn eu cynhyrchu a bod yr allyriadau gwirioneddol sy'n ymwneud â'r cynnyrch neu'r gwasanaeth yn gallu bod yn wahanol. O ganlyniad, efallai na fydd y dull yma'n adlewyrchu unrhyw ymdrechion a wneir i leihau allyriadau drwy effeithlonrwydd yn y gadwyn gyflenwi, e.e. drwy ddewis cyflenwr mwy effeithlon o ran ynni neu weithio gyda chyflenwyr i leihau'r defnydd o ddeunyddiau.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau Comisiynu'r Cyngor a daeth i'r casgliad cyffredinol bod gan y Cyngor ddull comisiynu clir a phriodol ar y cyfan, ond bod gwendidau yn ei drefniadau i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni'n gyson.

Nododd yr adroddiad 3 argymhelliad, gyda'r rheolwyr yn cytuno ar y rhain ac yn canolbwyntio ar ddiweddaru dogfennaeth safonol sydd ar waith o fewn y Cyngor i ddangos a thystio bod camau gweithredu penodol yn cael eu cymryd, er enghraifft, gwerthusiadau opsiynau, adolygiad o werth am arian.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau caffael a chomisiynu'r Cyngor:

> ***Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn ei swyddogaeth gaffael, gan weithredu dull 'datblygu ei weithlu ei hun' i sicrhau gweithlu digonol i gyflawni'r swyddogaeth. Mae gwaith gwella dros y blynyddoedd diwethaf wedi galluogi'r Cyngor i ymgorffori gofynion gwerth cymdeithasol yn ei gadwyn gyflenwi. Mae tystiolaeth o ba mor dda y mae cyflenwyr yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn wedi'i chynnwys mewn monitro contractau ac mae gwaith ar y gweill i ddeall effaith y dull yma***

ar y gymuned ehangach. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgorffori ymrwymiad sero net yn ei ddull, gan ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gyflwyno cynlluniau lleihau carbon. Mae'r Cyngor yn adrodd ei fod yn bwriadu datblygu ei ddull ymhellach drwy ymestyn digideiddio ar draws y swyddogaeth a gwneud defnydd llawn o ddulliau gwyddorau data.

Casgliad

Mae trefniadau caffael a chomisiynu'r Cyngor wedi'u hymgorffori'n dda ac mae gyda nhw hanes cadarnhaol o gefnogi contractau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith sy'n darparu gwerth cymdeithasol i'n cymunedau, gyda gwaith yn parhau i leihau ôl troed carbon nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu caffael.

7. Partneriaethau

Mae'r Cyngor yn parhau i adeiladu ar ei hanes cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth a chydweithio ag eraill. Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a grwpiau cymunedol i ddiwallu ystod o anghenion a galw. Mae yna lawer o enghreifftiau o drefniadau cydweithredol ar waith (RhCT Gyda'n Gilydd).

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn hunanasesiad blynyddol 2024/25.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Mae'r ddyletswydd i gydweithio yn un o'r pum Ffordd o Weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu rhoi ar waith i ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion Datblygu Cynaliadwy sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Serch hynny, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth gan mai dyma'r peth iawn i'w wneud i wella deilliannau i bobl a chymunedau a gwneud y mwyaf o'n hadnoddau cyfunol. Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod unrhyw waith gyda Phartneriaid yn darparu gwerth, deilliannau ac effeithiau i'n trigolion a'n cymunedau.

Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd, 'Gweithio gyda'n Cymunedau', yn nodi'n glir 'gyda chyllidebau dan bwysau a galwadau ar ein gwasanaethau ar gynnydd, rydyn ni'n cydnabod yr angen i ddatblygu a rheoli disgwyliadau realistig trwy fagu partneriaethau cryfach'. Mae'r Cynllun yn ymgorffori dulliau partneriaeth o gyflawni ar draws y pedwar Amcan Llesiant newydd a'r Blaenoriaethau sy'n sail iddyn nhw. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi ein hymrwymiad clir i bartneriaid: '...byddwn ni'n bartneriaid ymroddedig a gweithgar yn ein gwaith gydag eraill, gan geisio a herio lle y gallwn ni ychwanegu at ddeilliannau - a rhai gwell - i'n trigolion, cymunedau a busnesau drwy gydweithio.

Mae ein Rheolau Gweithdrefn yn y Cyfansoddiad yn nodi diffiniadau o bartneriaethau ffurfiol a'r cyfrifoldebau a'r rheolaethau cysylltiedig sydd yn eu lle.

Partneriaethau Strategol

Mae'r newidiadau i'r dirwedd partneriaeth strategol ar draws ein rhanbarth yn parhau i fynd rhagddyn nhw. Mae rhai o'n prif newidiadau o ran partneriaeth yn cynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (BGC) – mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i wneud cynnydd gyda darpariaeth ei Gynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg gyda'r trefniadau Craffu a gefnogir gan y Cyngor yma. Roedd ein gwaith yn 2025/26 yn cynnwys:
  - Penodi Prif Weithredwr y Cyngor yn Gadeirydd newydd y BGC a oedd yn cynnwys adolygiad o Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd. Canolbwyntiodd hyn ar gyflawni'r Amcanion Lles a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2025 gydag adroddiad a gyflwynwyd ar 17 Gorffennaf 2025.
  - Cynigiodd yr adolygiad sawl gwelliant i drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd gan gynnwys trefniadau adrodd mwy ffurfiol, adolygu rheolaidd ac integreiddio parhaus ar draws y trefniadau partneriaeth ehangach yn y rhanbarth.
  - Ym mis Hydref 2025, cadarnhaodd y BGC ymrwymiad i'r ffrydiau gwaith Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd, Teithio Llesol a Chydnerthedd Bwyd.

- Mae'r BGC yn cytuno i gefnogi'r gwaith sydd ei angen o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd drwy ddull system gyfan o ymdrin â lles cymunedol, gan adeiladu ar waith sy'n dod i'r amlwg ar draws y rhanbarth.
- Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 8 Ionawr 2026. Cyflwynir craffu ar 'adolygiad dilynol blwyddyn yn ddiweddarach' ym mis Hydref 2026 i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg .
- Mae'r gwaith yma'n cael ei gefnogi gan Garfan Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd y Cyngor.

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg – rydyn ni'n cryfhau ein trefniadau yn ein gwaith yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
  - Mae Cynllun Ardal Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg 2023-28, wedi'i lywio gan yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, yn parhau i gael ei roi ar waith gan Adroddiad Blynyddol 2024 - 2025 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.
  - Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gryfhau trefniadau gweithio ar y cyd fel bod modd i'n trigolion eiddil gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell a mwy integredig.
  - Mae symud ymlaen ag integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd ond cyflwynwyd Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol (RPA) i'r Cabinet a chytunwyd arno ganddo ym mis Gorffennaf 2025.
    - Mae'r Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi carreg filltir arwyddocaol yn ein taith tuag at iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae'n adlewyrchu aeddfedrwydd ein partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac awdurdodau cyfagos, a'n huchelgais a rennir i ddarparu cefnogaeth ddi-dor, sy'n canolbwyntio ar y person, i bobl hŷn a'r rheiny sy'n eiddil.
    - Mae cymeradwyaeth y Cabinet i'r Ddeddf Diogelu Pobl yn ein galluogi ni i symud ymlaen yn hyderus, gan sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu, comisiynu a chyflenwi yn addas ar gyfer y dyfodol.
  - Mae craffu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bellach yn cael ei wneud gan Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
    - Cyflwynir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd Model y System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS) a'r Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Nod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw rhoi sicrwydd bod gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i ddarparu gwerth am arian ac er budd llywodraethu da.

- Mae Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf Morgannwg – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) rhanbarthol unigol Cwm Taf Morgannwg – wedi bod ar waith ers 2024/25. Y nod yw cryfhau dulliau cydweithredol o ddiogelwch cymunedol ledled y rhanbarth.
  - Mae'r gwaith a wnaed hyd yma yn dangos ymrwymiad clir gan bartneriaid i alinio blaenoriaethau strategol, gwella cydlynu a chyflwyno ymyriadau ystyrlon sy'n canolbwyntio ar atal troseddau treisgar, hyrwyddo cymunedau cydlynol a chreu mannau diogel.
  - Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn – Gwasanaethau Cymuned ym mis Chwefror 2026. Cyflwynwyd adroddiad pellach i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ym mis Ebrill 2026, gyda ffocws penodol ar weithgareddau 'Hyrwyddo Cymunedau Cydlynol' gan gynnwys Cytundeb Cydweithio Cydlyniant Cymunedol wedi'i ddatblygu ar y cyd gan Heddlu De Cymru a'r saith Awdurdod Lleol yn ne Cymru.

- Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg – Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Bwrdd Gynllun Strategol tair blynedd a phob blwyddyn ddilynol yn ystod mis Mawrth mae'n cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol Cynllun Strategol BDCTM 2025-26 (Blwyddyn 3) sy'n nodi ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r blaenoriaethau yma'n deillio o'r gwersi sydd wedi'u dysgu dros flynyddoedd blaenorol, a dadansoddiad o'r materion diogelu cyffredin a'r rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ranbarth CTM. Yn ystod 2025/26, roedd hyn yn cynnwys ffocws parhaus ar ddatblygu'r dull strategol o gamfanteisio mewn perthynas â phlant ac oedolion mewn perygl, gyda'r Bwrdd yn lansio ei Strategaeth Gamfanteisio ranbarthol ym mis Medi 2025 – Strategaeth a Phecyn Cymorth Camfanteisio Cwm Taf Morgannwg | Diogelu, Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Strategaeth Camfanteisio ranbarthol wedi cefnogi asiantaethau a'r rhai mewn cymunedau lleol i nodi pob math o gamfanteisio'n well a chefnogi dealltwriaeth gynyddol o sut i roi gwybod am unrhyw bryderon.

- Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru – yn dilyn y newid o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, sefydlwyd trefniadau craffu ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a'u cefnogi drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Cyngor.

Y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd

Mae Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) yn fenter a gefnogir gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd i'n helpu i fod yn fwy 'gweithredol o ran ymchwil'. Mae CYBI RhCT yn un o 30 CYBI yn y DU a'r CYBI cyntaf i gael ei ariannu'n llawn yng Nghymru.

Mae gwaith y CYBI yn cael ei arwain gan y Cyngor ac rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Interlink RCT a phartneriaid yn y trydydd sector, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i nod yw creu diwylliant lle mae penderfyniadau am iechyd a lles yn seiliedig ar dystiolaeth, a lle mae ein cymunedau'n cymryd rhan yn y broses o gasglu tystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau a gaiff eu gwneud ynghylch lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Canolbwyntiodd gwaith Carfan CYBI ar dair thema yn ystod 2025/26:

Thema 1: Buddsoddi mewn Dulliau Ataliol

- Mapio Gwariant Ataliol
- Diffinio Cydnerthedd Cymunedol
- Gwella Recriwtio Rhieni Maeth
- Ymyrraeth Gynnar ac Atal a Chymorth Cynnar
- Mesur Effaith Model Ymarfer y Gwasanaethau i Blant
- Iechyd Meddwl a Llesiant Merched yn eu Harddegau
- Cysylltedd Ysgol
- Trais Difrifol ac Ysgolion

Thema 2: Cynyddu Llesiant

- Tlodi Plant
- Teithio Llesol i Wella Iechyd
- Datblygu Strategaeth Cymorth Tai 4 blynedd
- Gwerthusiad o Strategaeth Llesiant y Cyngor
- Datblygu Strategaeth Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid 5 mlynedd
- Datblygu Rhwydwaith Ymchwil Rhianta
- Gwerthuso Effeithiau Llwybrau Addasu i'r Hinsawdd ar Iechyd

Thema 3: Gwella Mynediad at Gymorth

- Mynediad gwell at wasanaethau

- Deall Diffyg Ymgysylltu â Gwasanaethau Hamdden a Diwylliannol
- Defnyddio Profiad Byw mewn Ymarfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Hamdden
- Gwerthuso'r System Gofal yn y Gymuned ar gyfer Pobl Hŷn
- Gwerthuso Gwasanaeth Allgymorth Tai Cwm Taf Morgannwg
- Cynhalwyr Gwrywaidd Di-dâl

Bu diddordeb sylweddol ledled y DU yng ngwaith CYBI RhCT gydag astudiaethau achos wedi'u cyhoeddi gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal. Mae CYBI RhCT wedi cyflwyno sesiynau allweddol mewn cynadleddau ledled y DU, wedi cynnal dau weminar ac wedi recordio podlediad ar gyfer Prifysgol Leeds. Mae ein gwaith prosiect Gwariant Ataliol wedi cael ei gydnabod gan CIPFA, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth yr Alban a chyfeiriwyd ato yn adroddiad CIPFA 2025, 'Investing in Prevention', fel arweinydd y sector yng Nghymru. Mae'r gwaith yma'n cefnogi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol yr argymhelliad y dylai 'cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r diffiniad o atal y cytunwyd arni rhwng Llywodraeth Cymru a fy swyddfa i fapio eu gwariant ataliol a buddsoddi'n gynyddol tuag at atal sylfaenol.'

Yn uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion Carfan CYBI mae Egwyddorion Marmot. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pum awdurdod lleol ledled Cymru, gan gynnwys Rhondda Cynon Taf, i gymryd rhan ym menter Marmot Nation/Ecwiti Iechyd Cymru. Mae Rhondda Cynon Taf wedi cael ei nodi fel un o'r ddau awdurdod lleol 'mabwysiadwr cynnar', a fydd yn elwa o ddwy flynedd o gyllid ac arbenigedd proffesiynol gan bartneriaid cenedlaethol. Mae CYBI RhCT wedi cael gwahoddiad i rannu dysgu ac arbenigedd yn yr achlysur Dysgu Marmot cenedlaethol dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd gwaith i ymgorffori Egwyddorion Marmot ymhellach yng ngwaith 'dyddiol' holl adrannau'r Cyngor yn digwydd yn ystod 2026/27 a thu hwnt a bydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r partneriaethau rhanbarthol perthnasol. Mae'r gwaith yma'n cefnogi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol yr argymhelliad y dylai 'Cyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio, ynghyd â'r sectorau preifat a gwirfoddol, i weithredu'r model cymdeithasol o iechyd, creu lleoedd a/neu egwyddorion Marmot i wella gweithredu ar y penderfynyddion ehangach a lleihau anghydraddoldebau yn eu hardaloedd'.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â phartneriaethau.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau partneriaeth y Cyngor:

Clywodd y panel fod y Cyngor yn cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol, ond ei fod hefyd wedi buddsoddi'r amser i ddatblygu'r perthnasoedd strategol ymddiriedus pwysig hynny gyda'i bartneriaid a rhanddeiliaid ehangach. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o gydweithio cynhwysol gyda ffocws ar wella Rhondda Cynon Taf i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld yno. Dywedodd partner 'Mae Paul (y Prif Swyddog Gweithredol) wedi cymryd rôl arweinyddiaeth glir yn y BGC ac wedi rhoi siâp iddi, mae'n sicrhau ei fod ar gael, yn mabwysiadu dull cyd-gynhyrchu ac yn ceisio adborth'. Siaradodd partneriaid allanol a rhanddeiliaid eraill yn gadarnhaol am barodrwydd y Cyngor i weithio'n gynhwysol, gydag enghreifftiau'n cael eu rhoi o'r Cyngor yn rhannu ei adnoddau a'i arbenigedd yn y maes partneriaeth i hyrwyddo lles y cyhoedd yn ehangach. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bartneriaid.

Casgliad

Mae gan y Cyngor hanes cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth i gefnogi cyflawni deilliannau er budd cymunedau ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd y gwaith yma'n parhau a hefyd yn ystyried egwyddorion Marmot yn rhan o ddatblygiad parhaus y trefniadau sydd ar waith.

8. Ymglymiad ac Ymgysylltiad

Rydyn ni wedi parhau i ehangu a chryfhau ein sianeli ymgysylltiad, ymglymiad ac adborth, i gael gwybod beth sy'n bwysig i bobl a hefyd i wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sy'n dod i law o'r amrywiol sianeli adborth i lunio a llywio darpariaeth gwasanaeth, cynlluniau a pholisi.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Nododd hunanasesiad 2024/25 un maes i'w wella o ran Cynnwys ac Ymgysylltu, gyda datganiad safbwynt ar gynnydd wedi'i nodi yn Nhabl 9.

Tabl 9: Datganiad Safbwynt ar Gynnydd: Ymglymiad ac Ymgysylltiad

Maes i'w wella	Datganiad Safbwynt ar Gynnydd/Deilliannau
Dylid defnyddio'r data a ddychwelwyd o arolwg y trigolion i ddeall ein cymunedau ymhellach, bydd hyn yn caniatáu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ar draws y Cyngor a bydd modd i ni gael mynediad at ddata gwerthfawr, wedi'i feincnodi, a'i ddefnyddio'n rheolaidd.	Yn 2025/26, mae adborth trigolion wedi parhau i gael ei ddefnyddio i lywio cynllunio a darparu gwasanaethau a bydd y gwaith yma'n cael ei adeiladu ar symud ymlaen i gefnogi cynrychiolaeth ehangach gan grwpiau lleol ac annog cyfranogiad ehangach. Bydd y gwaith yma hefyd yn ystyried cwestiynau ychwanegol ar y Gymraeg, a ddatblygwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, sydd â'r bwriad o gryfhau'r sail dystiolaeth i gefnogi gofynion cynllunio statudol, amcanion polisi ehangach, a Strategaeth Hybu'r Gymraeg pum mlynedd y Cyngor.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi mewnwelediad o bob rhan o'n cymunedau. Yn ogystal â dulliau ymgysylltu digidol ('Dewch i Siarad') rydyn ni'n darparu opsiwn post a ffôn am ddim ac yn parhau i wella ein technegau ymgysylltu wyneb yn wyneb i sicrhau nad yw trigolion yn cael eu heithrio'n ddigidol. Mae hyn wedi cynnwys mynychu cyfarfodydd Rhwydweithiau Cymdogaeth yn rheolaidd yn ogystal â defnyddio Arweinwyr y Rhwydwaith i anfon gwybodaeth drwy'r Rhwydweithiau drwy e-bost a'u hannog i rannu gwybodaeth drwy eu cysylltiadau cymunedol. Rydyn ni'n llunio deunyddiau ymgysylltu hygyrch, megis fersiynau hawdd eu darllen o'n dogfennau ymgynghori e.e. yr arolwg Cyllideb Flynyddol (Cam 1 a 2), Strategaeth Cynnwys ac Ymgysylltu, Ymgynghoriad Gofal Preswyl.

Rydyn ni hefyd yn ymgysylltu â phobl ifainc ac ysgolion trwy gynnal achlysuron yn Siambr y Cyngor yn rheolaidd. Mae gyda ni berthynas waith dda gyda'r Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifainc sy'n darparu'r pwynt cyswllt cyntaf wrth gyrraedd pobl ifainc sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan gynigion a newidiadau'r Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a oedd yn cynnwys achlysuron ymgysylltu wyneb yn wyneb.

- Fe wnaethon ni gefnogi dros 80 o ymgynghoriadau gwasanaeth, gyda thua 17,000 o ymatebion yn cael eu derbyn a'u dadansoddi (cynnydd o tua 6,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol). Mae hyn yn ychwanegol at dros 1,200 o bobl sydd wedi ymgysylltu drwy wefan Dewch i Siarad.

Mae'r llwyfan 'Dewch i Siarad' yn ein galluogi i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ac yn helpu i ddangos yr hyn rydyn ni wedi'i wneud o ganlyniad i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthon ni, ond rydyn ni'n parhau i gryfhau ein hymagwedd. Mae'r llwyfan yn darparu dadansoddeg data da. Mae defnyddio'r data yma wedi gwella ein gallu i ddefnyddio gwybodaeth sy'n deillio o brosiectau ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn cynllunio gwaith yn y dyfodol gyda gwell dealltwriaeth o ddulliau ymgysylltu llwyddiannus.

- Mae dros 6,500 o ymwelwyr wedi'u cofnodi ar draws Dewch i Siarad yn 2025/26.
- Cyrhaeddodd 35.2% o ymwelwyr statws gwybodus, sy'n golygu eu bod wedi gweld sawl tudalen ac wedi dilyn dolenni i ddogfennau neu adnoddau eraill a gaiff eu rhestru ar dudalen, tra bod 13.3% o ymwelwyr wedi ymgysylltu, sy'n golygu bod yr ymwelydd wedi cymryd rhan mewn arolygon, polau piniwn neu bwyntiau rhyngweithiol eraill ar y dudalen/tudalennau yr ymwelsant â nhw.
- Mae enghreifftiau o'r prosiectau Dewch i Siarad rydyn ni wedi'u cefnogi a'u harwain yn cynnwys;
  - Dewch i Siarad am y Gyllideb
  - Dewch i Siarad Tonypandy
  - Dewch i Siarad am Eich Barn
  - Dewch i Siarad am Eisteddfod 2024

Mae gweithgareddau Cynnwys ac Ymgysylltu'r Cyngor wedi'u datblygu ac maen nhw'n parhau i dyfu. Rydyn ni'n ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a grwpiau ond bellach rydyn ni angen datblygu ein prosesau ymhellach i ddangos yr effaith rydyn ni'n ei chael ar ein cymunedau. Bydd Strategaeth a chynllun gweithredu cyfranogiad newydd y Cyngor yn symud hyn ymlaen yn 2026.

Cymeradwyodd y Cyngor newydd Strategaeth Cymryd Rhan RhCT yn 2025, ar ôl ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid.

- Nod y Strategaeth yw creu ymgysylltiad ehangach ar draws ein cymunedau sy'n galluogi pobl i gael mewnbwn ar gynllunio a darparu gwasanaethau'r Cyngor.
- Mae'n nodi rhestr eang o randdeiliaid y dylai'r Cyngor ymgysylltu â nhw, yn dibynnu ar y pwnc a'r gofynion statudol.
  - Mae ein cronfa ddata rhanddeiliaid yn cael ei hadnewyddu'n barhaus i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn addas i'r diben fel bod modd iddi gynyddu ein cyrhaeddiad mewn perthynas â phrosiectau ymgysylltu allweddol.
- Mae'r gwaith yma'n cefnogi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol yr argymhelliad bod 'Rhaid i gyrff cyhoeddus ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd er mwyn meithrin ymddiriedaeth, cryfhau consensws, a phontio'r bwlch rhwng llunio polisïau a dinasyddion.'

Fel yr adroddwyd o dan yr adran 'Cyflawniad' yn yr hunanasesiad yma, mae'r Cyngor yn adolygu'r ffyrdd y mae'n adrodd ar ddeilliannau a mesurau a fydd yn helpu i ddangos ymhellach yr effaith rydyn ni'n ei chael ar ein cymunedau, gyda hyn wedi'i ategu gan y trefniadau cyfathrebu sydd ar waith gyda thrigolion.

Cynllun Adborth Cwsmeriaid

Mae'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid yn cofnodi'r holl Sylwadau, Canmoliaethau a Chwynion a gaiff eu derbyn gan drigolion ac ymwelwyr â'r ardal (gan nodi nad yw'r Cynllun yn ymwneud â threfniadau statudol megis Gofal Cymdeithasol neu Ysgolion).

- Cafodd Cynllun Adborth Cwsmeriaid 2024/25 – Adroddiad Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion 2023/24 ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2025. Cafodd Adroddiad a llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024/25 eu trafod yn y cyfarfod yma hefyd.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â Rheoli Risg.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau ymgysylltu a chynnwys y Cyngor:

> ***Mae'r Cyngor yn adeiladu ar fframwaith cyflawniad cryf presennol i integreiddio ei waith ar ymgysylltu a chydnerthedd y gymuned, hyn o ran mesur deilliannau ac effaith. Mae'r Cyngor yn deall bod gofyn iddo fabwysiadu dull rhoi ar brawf a dysgu wrth gyflawni'r newid y mae am ei wneud, a bod gofyn i hyn ddigwydd ar y cyd â'i bartneriaid.***

> ***Mae'r Cyngor yn cael ei annog i barhau â'r broses yma er mwyn datblygu'r sgiliau a'r capasiti fydd yn ei alluogi i (ymhlith pethau eraill): Gwerthuso i ba raddau y mae'r dulliau ymgysylltu presennol yn darparu ar gyfer bod yn rhan o bethau, ac yn annog hyn.***

Casgliad

Mae gweithgareddau cynnwys ac ymgysylltu'r Cyngor yn cynnwys ystod eang o unigolion a grwpiau i lywio'r ddarpariaeth o wasanaethau a bydd y gwaith yma'n parhau, wedi'i lywio gan Strategaeth Cynnwys y Cyngor, i annog cyfranogiad ac adborth a dangos yn well yr effaith y mae gwasanaethau'r Cyngor yn ei chael ar ein cymunedau.

9. Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol yn fewnol ac yn y gymuned, ac mae mewn sefyllfa dda i gyflawni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Eleni, gwelwyd cynnydd cadarnhaol pellach wrth gyflawni Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gwerthusiad cadarnhaol o'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad a chynnydd pellach wrth ddatblygu sgiliau iaith staff. Bydd datblygu Polisi 'Defnydd Mewnol o'r Gymraeg' yn cefnogi ymhellach ein huchelgeisiau parhaus i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn hunanasesiad blynyddol 2024/25.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Polisïau a Chydymffurfio

Mae gan y Cyngor ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Ceir manylion pellach am y rhain yn Adroddiad Safonau'r Gymraeg 2025-26, a gymeradwywyd i'w gyhoeddi gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg ar 23 Mehefin 2026.

Cafodd Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2025, a dyma'r datblygiad deddfwriaethol mwyaf arwyddocaol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ers cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- Mae gofynion y ddeddfwriaeth a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd tuag at eu bodloni wedi'u nodi yn adroddiad i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg ym mis Hydref 2025. Mae hyn yn cynnwys adolygu a mireinio ei pholisïau a'i weithdrefnau a gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned.

Derbyniwyd 3 cwyn yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn 2025/26, sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle derbyniwyd 5. Canfuwyd nad oedd un yn ddilys, mae un yn dal i gael ei ymchwilio ac mae'r trydydd wedi'i ddatrys.

Llywodraethu

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cryf drwy Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

- Adroddwyd ar gynnydd yn erbyn Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg ar 25 Hydref ac i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Rhagfyr 2025.
    - Tynnodd yr adroddiad sylw at gynnydd cadarnhaol ar draws nifer o feysydd, yn enwedig yn ein gwaith gydag ysgolion, ymgysylltu ag ymgeiswyr am grantiau cymunedol i gyflawni meini prawf asesu'r iaith Gymraeg, cynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Gwasanaeth Celfyddydau a lansio ap Defnyddio fy Nghymraeg.
    - Mae cynnydd wedi'i wneud o ran sefydlu targedau mwy meintiol i wasanaethau ddeall effaith eu gwaith; fodd bynnag, nid yw systemau casglu data wedi bod ar waith yn hanesyddol i gefnogi'r gwaith yma. Mae gwelliannau pellach i gasgliadau a systemau data yn parhau i fod yn ganolbwynt wrth symud ymlaen.

- Adroddwyd ar gynnydd ar gyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Bwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant ym mis Medi 2025.
    - Nodwyd bod y cynnydd cyffredinol yn gadarnhaol gyda sgôr Statws Coch Melyn Gwyrdd o Werdd, gyda chynnydd da tuag at dargedau gan gynnwys cynnydd yng nghanran y disgyblion oedran meithrin sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2024/25 – o 21.64% i 24.07%) a chanran y disgyblion oedran derbyn yn aros yn gyson.

Yn eu Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, argymhellodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

> *25. Dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu cynllun clir i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn galluogi staff i fyw eu bywydau gwaith yn gynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan feithrin diwylliant dwyieithog cryfach yn y gweithle.*

Roedd gwaith y Cyngor yn y maes yma eisoes yn mynd rhagddo'n gryf cyn cyhoeddi'r argymhelliad ac mae gwaith wedi parhau i gryfhau'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. Mae enghreifftiau o'r gwaith yma wedi'u cynnwys yn y diweddariad i Strategaeth Hybu'r Gymraeg ac yn cynnwys y cynllun peilot ar gyfer menter staff 'Siarad' i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Gweithlu

Mae ystod o gyfleoedd hyfforddi ar gael i staff ar bob lefel, fel y caiff ei manylu yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal â chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau iaith, cynhaliwyd sesiwn 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' gydag Uwch Reolwyr y Cyngor, gan roi cyfle i'r Uwch Garfan Rheoli drin a thrafod sut i ddatblygu diwylliant dwyieithog o fewn y Cyngor. Bwriedir datblygu hyfforddiant o'r math yma i Reolwyr er mwyn cryfhau ein dull strategol ymhellach.

- Roedd 13.6% o staff y Cyngor (staff nad ydyn nhw'n addysgu) yn gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg (gan ragori ar y targed o 12.4%)
    - Mae targed diwygiedig ar gyfer y dyfodol bellach wedi'i osod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg ym mis Hydref 2025 o 15% o leiaf. Mae'r gwaith a gynlluniwyd i gyflawni'r targed yma'n cynnwys hyfforddiant parhaus a datblygu Polisi 'Defnydd Mewnol o'r Gymraeg'.
- Mae cynllunio iaith ar gyfer y dyfodol ar draws y Cyngor yn gwella gyda data gwell.

Parhaodd ein cynllun gwarantu cyfweliad i siaradwyr Cymraeg (a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2024) yn 2025/26 gyda diweddariad yn cael ei adrodd i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg ym mis Hydref 2025. Adroddwyd bod y cynllun yn parhau i fod yn llwyddiannus gyda chynnydd o 16% yn nifer yr ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg a benodwyd neu a gynigiwyd swydd iddyn nhw. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd ym mhroffil iaith Gymraeg y staff. Cydnabu Comisiynydd y Gymraeg y cynllun fel arfer da. Mae rhagor o fanylion yn y ffilm fer yma.

Adnoddau i gefnogi'r Cyngor

Parhaodd y Cyngor i fuddsoddi yng Ngharfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Mae'r garfan yn darparu rôl allweddol i'r Cyngor o ran, er enghraifft, datblygu polisïau, adrodd ar gynnydd i'r pwyllgor craffu, darparu hyfforddiant a monitro cydymffurfiaeth. Mae'r garfan hefyd yn darparu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ac wedi elwa o hyfforddiant ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn caniatáu inni ehangu ein gwasanaethau cyfieithu ar y pryd y tu hwnt i gyfarfodydd pwyllgor – megis perfformiadau theatr ac ymgynghoriadau cyhoeddus. Er enghraifft – darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (i'r Saesneg) mewn sawl achlysur 'Noson Sbrigiau' yn Theatr y Parc a'r Dâr yn Nhreorci, fel y gallai cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg ddeall y gwaith yn well.

Mae cefnogi cyflawni Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 wedi'i gryfhau gan Gydlynydd Strategaeth y Gymraeg a gafodd ei benodi ym mis Ebrill 2025.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg yn benodol.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor ar gyfer y Gymraeg:

Nododd yr Asesiad Cyflawniad Panel -

> ***Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 12.4% o drigolion RhCT eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg (dogfen gwmpasu RhCT). Er ei fod yn is na chyfartaledd Cymru (17.8%), roedd RhCT yn un o'r ychydig awdurdodau i ddangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers y Cyfrifiad blaenorol, gan adlewyrchu'r ymrwymiad cryf i strategaeth hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn RhCT.***

Casgliad

Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol yn fewnol ac yn y gymuned, ac mae mewn sefyllfa dda i gyflawni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Gyda golwg benodol ar y Cyngor, mae datblygiad y Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg a'r cynllun gweithredu yn anelu at gefnogi ymhellach hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg.

10. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob agwedd ar y sefydliad, gan gynnwys cryfhau trefniadau llywodraethu drwy'r grŵp llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, cefnogi a datblygu ein rhwydweithiau staff a lansio polisi gwrth-fwlio ac aflonyddu newydd. Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran cyflawni ymrwymiadau ein cynllun cydraddoldeb strategol.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn hunanasesiad blynyddol 2024/25.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Cytunwyd ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 y Cyngor gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn integreiddio o fewn y fframwaith sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-30 'Gweithio gyda'n Cymunedau' a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Ebrill 2024 ac sydd hefyd yn cynnwys ein hymrwymiad i driniaeth deg a chyfartal i'n staff a'n trigolion.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb yn nodi'r tri amcan canlynol:

1. **Byddwn ni'n ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ym mhob agwedd ar ddarpariaeth ein gwasanaethau.**
2. **Denu ymgeiswyr sy'n cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau, gan gyfoethogi ein gallu sefydliadol o ran bodloni ein hamcanion.**
3. **Parchu, gwerthfawrogi a gwrando ar ein holl weithwyr drwy ymgorffori diwylliant cynhwysol.**

Mae cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn parhau i gael ei fonitro drwy'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gaiff ei gynnal ddwywaith y flwyddyn. Dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Arweinydd, mae'r Grŵp Llywio yn goruchwylio ein blaenoriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu. Un ffocws allweddol fu defnyddio data amserol a chadarn i ddangos cynnydd a gwerthuso effaith ein gwaith, gan gynnwys drwy'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb blynyddol, sy'n cefnogi ein cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rydyn ni wedi parhau i gryfhau ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb Staff, a gaiff eu cefnogi ar lefel uwch gan Hyrwyddwyr Amrywiaeth ymroddedig a'r Dirprwy Arweinydd. Mae hyn yn sicrhau bod llais y staff yn cael ei gynrychioli y tu hwnt i ddylanwadu ar newid sefydliadol, mae'r rhwydweithiau'n darparu mannau diogel a chefnogol i weithwyr gysylltu, rhannu profiadau a chael mynediad at gymorth gan gymheiriaid. Mae'r ymdeimlad yma o berthyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at les gweithwyr, gan helpu i leihau unigedd a meithrin cydnerthedd ar draws y gweithlu.

Mae set ddiwygiedig o gwestiynau sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn yr Asesiad Hunanwasanaeth wedi cryfhau ein gallu i fonitro cynnydd sy'n darparu mecanwaith tryloyw ar gyfer herio a chefnogi, gan sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau i fod yn rhan annatod o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Nododd adolygiad diweddar o'n prosesau recriwtio sawl cyfle i gryfhau ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhellach drwy gydol y broses recriwtio a chynefino. Mae'r garfan Adnoddau Dynol wrthi'n datblygu cynigion i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd a chefnogi arferion recriwtio mwy cynhwysol, a bydd y gwaith yma'n parhau yn 2026/27.
Rydyn ni'n parhau i atgyfnerthu ein dull dim goddefgarwch o wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu ar draws y sefydliad. Mae darparu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol yn barhaus yn elfen allweddol o'r gwaith yma, gan helpu i godi ymwybyddiaeth, meithrin gallu a hyrwyddo diwylliant cynhwysol yn y gweithle.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethon ni lansio Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu newydd, wedi'i gefnogi gan raglen gynhwysfawr o hyfforddiant a gweithgareddau cyfathrebu. Mae gwerthusiad cynnar yn dangos bod cwynion a gaiff eu codi o dan y polisi yn cael eu rheoli mewn modd amserol, gan roi hyder bod y trefniadau diwygiedig yn cefnogi dull mwy effeithiol ac ymatebol o fynd i'r afael â phryderon yn y gweithle.

Trafodwyd yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol diweddaraf gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2026. Amlinellodd yr adroddiad y gwaith a wnaed i gyflawni'r 3 amcan a nodir uchod, gan gynnwys cryfhau sut rydyn ni'n goruchwylio gwaith cydraddoldeb drwy sefydlu'r grŵp llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd; gwella ansawdd data cydraddoldeb y gweithlu drwy ddiweddariadau i iTrent a chyflwyno Hunanwasanaeth i Weithwyr a chryfhau diwylliant sefydliadol drwy gyflwyno dysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol, darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i staff rheng flaen a chynyddu cyfathrebu am ein dull dim goddefgarwch o fwlio ac aflonyddu.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Darparodd yr Asesiad Cyflawniad Panel yr adborth canlynol mewn perthynas â threfniadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y Cyngor:

> ***Cyngor uchel ei barch – Clywodd y panel gan ystod o staff a chynrychiolwyr Undebau Llafur fod yr arweinyddiaeth (gwleidyddol a swyddogion) a'r swyddogaeth adnoddau dynol yn uchel ei pharch. Cyfarfu'r panel hefyd â chynrychiolwyr o sawl rhwydwaith staff a sefydlwyd i hyrwyddo agenda amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant y Cyngor. Roedd cynrychiolwyr yn gadarnhaol ynglŷn ag ymrwymiad y Dirprwy Arweinydd a'r Prif Weithredwr, datblygiad y rhwydweithiau a'r gefnogaeth a gawson nhw gan y rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Serch hynny, dywedwyd bod y profiad o newid yn cael ei weithredu ar draws yr haenau rheoli yn amrywiol gyda mwy o waith i'w wneud i ymgorffori bwriad polisi'r Cyngor yn ymarferol.***

Casgliad

Mae'r Gwasanaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau i hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y sefydliad, gan helpu i sicrhau a monitro cydymffurfiaeth a bod trefniadau a chynlluniau clir ar waith i gyflawni'r gwaith yma.

11. Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon yn Rhondda Cynon Taf

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau effaith carbon ei weithgareddau. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru 2024/25 diweddaraf i Is-bwyllgor Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio'r Cabinet ym mis Mawrth 2026.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn hunanasesiad blynyddol 2024/25.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r fframwaith strategol ar gyfer lleihau allyriadau carbon ar draws gweithrediadau'r Cyngor. Yn ystod 2025, cynhaliwyd gwaith i adolygu a diweddaru'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddatgarboneiddio gweithgareddau'r Cyngor, a disgwylir i ganlyniad y gwaith yma gael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu yn ystod hydref 2026. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgysylltu helaeth â swyddogion ar draws y Cyngor i sicrhau bod blaenoriaethau'r dyfodol yn cyd-fynd ag amcanion gwasanaeth a rhaglenni cyflawni. Er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu a rheoli cyflawniad, bydd y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru hefyd yn cael eu hymgorffori yng Nghynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor, gan alluogi monitro ac adrodd cyson ar gynnydd yn y dyfodol.

Roedd y gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Parhau i gyfrifo ôl troed carbon blynyddol y Cyngor yn unol â'r Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol sef 1 Medi 2025 a'i adrodd i'r Pwyllgor Craffu.
  - Cyfanswm yr allyriadau a adroddwyd ar draws Cwmpasau 1, 2 a 3 ar gyfer 2024/25 oedd 122,560.47 tunnell o CO_2e.
  - Mae wedi cael ei gyhoeddi ar dudalen we 'Ein Hôl Troed Carbon' y Cyngor i gefnogi tryloywder ac atebolrwydd yn nhaith ddatgarboneiddio'r Cyngor.
  - Yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn parhau i gyflwyno ffurflenni allyriadau blynyddol i Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion adrodd cenedlaethol. Mae'r cyflwyniad nesaf, sy'n cwmpasu data allyriadau 2025/26, i fod i gael ei gyflwyno ym mis Medi 2026, gyda'r canlyniadau wedi'u hamserlennu i'w trafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio ym mis Tachwedd 2026.
- Parhaodd y Cyngor gyda'i **Rhaglen Lleihau Carbon**, gan gyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon ar draws ystâd y Cyngor.
  - Mae gwaith ein Rhaglen Lleihau Carbon yn cyflawni argymhelliad adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

    14. Rhaid i gydnerthedd ac addasu i'r hinsawdd ddod yn flaenoriaeth graidd i wasanaeth cyhoeddus. Erbyn diwedd 2027, dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu risgiau hinsawdd i'w cymunedau, gan ddiweddaru eu canfyddiadau bob pum mlynedd yn rhan o'u hasesiadau lles. Rhaid i gyrff cyhoeddus integreiddio'r canfyddiadau yma yn eu cynllunio corfforaethol a strategol.

- Yn ogystal â'r rhaglen Lleihau Carbon, llwyddodd y Cyngor i sicrhau mwy o **gyllid grant i gyflawni prosiectau pellach**. Mae'r tabl isod yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch gallu'r Cyngor i sicrhau cyllid grant:

CRYNODEB	Blwyddyn Ariannol 2022/23	Blwyddyn Ariannol 2023/24	Blwyddyn Ariannol 2024/25	Blwyddyn Ariannol 2025/26	CYFANSWM
Gofynnwyd	£293,050.25	£773,206.40	£1,108,319.00	£1,618,621.95	£3,793,197.60
Dyfarnwyd	£293,050.25	£773,206.40	£858,589.00	£1,466,433.67	£3,391,279.32
Hawlwyd	£289,859.00	£773,206.40	£812,748.88	£1,448,974.24	£3,324,788.52

  Parhaodd â'i waith gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn perthynas â'r Cynllun Ardal Ynni Lleol, gyda diweddariad a gyflwynwyd i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio ym mis Ebrill 2026.
- Yn symud ymlaen ag ystod o brosiectau gan gynnwys y Prosiect Tirwedd Fyw a'r Prosiect Mawnogydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth/Ebrill 2026.
- Cynnydd Allgymorth y Prosiect, gan amlygu gweithgareddau allweddol a chynnydd tuag at ymwybyddiaeth o Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon. Grymuso Arwyr Eco Ifainc: Prosiect Allgymorth yn dod â Chynaliadwyedd i Ysgolion.
- Parhawyd i gefnogi Cydweithwyr Fflyd mewn perthynas â'r cyflwyniad arfaethedig o gerbydau trydan drwy sicrhau bod isadeiledd gwefru priodol ar waith. Adroddwyd diweddariad ar gynnydd i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026.

Mae dwy risg benodol yn ymwneud â'r Hinsawdd yng Nghofrestr Risgiau Strategol y Cyngor Risgiau 24 a 26, gyda rheolaethau a chamau gweithredu ar waith. Gweler y diweddariad yn adroddiad Chwarter 4 i'r Cabinet ar 13 Gorffennaf 2026 er cyflawnder.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Nid oedd unrhyw ganfyddiadau penodol mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd/lleihau carbon yn rhan o'r Asesiad Cyflawniad Panel.

Casgliad

Mae gan y Cyngor enw da am gyflawni prosiectau sy'n gwella effeithlonrwydd ynni ei asedau a thrwy hynny gefnogi'r broses barhaus o ddatgarboneiddio gweithrediadau i leihau ein hôl troed carbon, gyda threfniadau ar waith i barhau â'r rhaglen waith yma i'r dyfodol.

2. Diogelu Corfforaethol

Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae'n sail i'r trefniadau sydd ar waith ar draws y Cyngor. Mae'r Polisi yn darparu fframwaith sy'n nodi sut y mae modd i ni fod yn sicr ein bod ni'n cyflawni ein dyletswyddau i ddiogelu'r bobl sy'n byw ar draws ein cymunedau ac yn ystyried y Canllawiau Arfer Da Diogelu Corfforaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r Polisi yn destun adolygiad parhaus.

Meysydd i'w Gwella 2024/25 – Datganiad Safbwynt ar Gynnydd

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn hunanasesiad blynyddol 2024/25.

Meysydd Allweddol Eraill mae'r Cyngor yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2025/26

Mae Grŵp Diogelu Corfforaethol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu perygl, fel sydd wedi'u nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol.

Mae'r Grŵp yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer diogelu ar waith ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ceisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau rheoli cyflawniad effeithiol ar waith er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n gorfforaethol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill. Mae trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol yn y Sector Addysg a Gofal Cymdeithasol.

Mae pwysigrwydd strategol diogelu corfforaethol y Cyngor hefyd wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-30, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Ebrill 2024. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn cynnwys pedwar Amcan Llesiant sy'n cael eu cefnogi gan Flaenoriaethau Craidd, ac adran sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu cadarn y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn i'n Cyngor gael ei ystyried yn 'Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda'. Mae Diogelu Corfforaethol yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu cadarn y Cyngor.

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn sefydlu fframwaith y mae modd i'r Cyngor barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau diogelu oddi mewn iddo i gadw'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ddiogel. Mae'r Fframwaith Diogelu Corfforaethol yn cynnwys pedwar maes gweithgarwch:

4. **Arweinyddiaeth a Diwylliant**
5. **Arfer a Safonau Proffesiynol**
6. **Y Gweithlu, Recriwtio a Dethol**
7. **Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad**

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2025 bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwaith a gafodd ei gyflawni mewn perthynas â threfniadau diogelu corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024-25. Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a daethpwyd i'r casgliad:

> ***Bod y Cyngor yn parhau i fod â threfniadau cadarn ac effeithiol ar waith o ran ei drefniadau diogelu corfforaethol. Mae gwaith da wedi'i wneud yn ystod 2024/25 i gryfhau ein trefniadau, ond rydyn ni'n yn gwybod bod angen gwaith pellach.***

Cafodd Cynllun Cyflawni 2025/26, sy'n canolbwyntio ar y pedwar maes gweithgaredd a nodwyd yn y Polisi Diogelu Corfforaethol, ei ddatblygu a'i ymgorffori mewn meysydd gwaith na chawson nhw eu gweithredu'n llawn yn ystod 2024/25.

Fe wnaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol gyfarfod 4 gwaith yn ystod y flwyddyn. Canolbwynt allweddol y Grŵp oedd adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni y cytunwyd arno. Cafodd y cynllun cyflawni ei fonitro a'i adrodd gan ddefnyddio Fframwaith Rheoli Cyflawniad Cyngor. Bydd adroddiad sy'n crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â threfniadau diogelu corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2025/26 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn hydref 2026 ond mae rhai o'r cyflawniadau penodol wedi'u rhestru fel a ganlyn:

Arweinyddiaeth a Diwylliant

- Cyfathrebu/ymwybyddiaeth well yn ymwneud â busnesau RhCT a gofynion diogelu sy'n deillio o Ganllaw Arfer Da Diogelu Corfforaethol Cymru trwy fewnosodiadau Ardollau Gwella Busnes.
- Gweithiodd yn agos gydag asiantaethau Partner i lansio'r Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol ar 1 Medi 2025.

Arfer a Safonau Proffesiynol

- Parhau i sicrhau bod diogelu yn cael ei gynnwys yn rhan o becynnau tendro ac ar dudalennau gwe polisi caffael, e.e. cadw pobl yn ddiogel, chwythu'r chwiban a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.
- Adolygu trefniadau mewn perthynas ag Addysg Ddewisol Gartref yn fanwl
- Sicrhau bod contractau perthnasol yn destun asesiadau risg seiberddiogelwch parhaus.

Y Gweithlu, Recriwtio a Dethol

- Hyfforddiant gorfodol 'Cadw Pobl yn Ddiogel' - roedd dros 4,500 o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant erbyn mis Mawrth 2026 gan gynnwys bron i 500 drwy sesiynau wyneb yn wyneb.
- Penodwyd Swyddog Diogelu pwrpasol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg.
- Darparwyd hyfforddiant i staff mewn perthynas â risgiau seiber megis gwe-rwydo ac ymosodiadau e-bost.

Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad

- Lansiwyd Polisi Defnydd Derbyniol o AI i sicrhau bod data sensitif yn cael ei reoli'n briodol.
- Adolygwyd data sefydliadol i roi golwg gynhwysfawr ar ddiogelu ar draws y sefydliad.
- Adolygwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn rhan o'r cylch adolygu parhaus a chytunwyd ei fod yn addas at y diben.

Mae cynllun cyflawni sy'n manylu ar y gwaith a fydd yn cael ei gyflawni yn 2026/27 wedi'i baratoi sy'n ymgorffori'r meysydd hynny nad ydyn nhw wedi'u datblygu'n llawn yn 2025/26. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn hydref 2026 ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd blynyddol ar gyfer 2025/26.

Adroddiadau Archwilio Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Archwilio Cymru yn benodol mewn perthynas â diogelu corfforaethol.

Canfyddiadau'r Asesiad Cyflawniad Panel

Nid oedd unrhyw ganfyddiadau penodol mewn perthynas â diogelu corfforaethol yn rhan o'r Asesiad Cyflawniad Panel.

Casgliad

Mae'r Cyngor yn parhau i fod â threfniadau cadarn ac effeithiol ar waith o ran ei drefniadau diogelu corfforaethol. Mae gwaith cadarnhaol wedi'i gyflawni yn 2025/26 i gryfhau'r trefniadau ymhellach, ac mae cynllun cyflawni ar waith ar gyfer 2026/27 sy'n anelu at adeiladu ar y sylfeini cryf yma.

Adborth Rheoleiddwyr

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal perthnasau adeiladol a chynhyrchiol gyda'i Reoleiddwyr. Mae ein dull o ymateb i adroddiadau Rheoleiddwyr yn agored ac yn dryloyw, a chaiff adroddiadau eu trafod gan y pwyllgorau perthnasol. Gweler y manylion yma.

Yn gadarnhaol, atgyfnerthodd adborth y Rheoleiddwyr drwy gydol y flwyddyn asesiad y Cyngor ei hun o'i gryfderau a'i gyfleoedd/meysydd i'w gwella, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau ariannol a gwasanaeth sylweddol sydd o'n blaenau.

CASGLIAD CYFFREDINOL



Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r dystiolaeth ar waith, mae trefniadau'r Cyngor wedi bod yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y sefydliad, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig parhaus, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, cyflawni gwasanaethau yn gyffredinol a deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r farn gyffredinol yma'n gyson â'r adborth o'r Asesiad Cyflawniad Panel.

Mae canfyddiadau'r broses hunanasesu wedi nodi cryfderau a chyfleoedd/meysydd i'w gwella (Tabl 1), a fydd yn cefnogi cryfhau ymhellach y trefniadau sydd ar waith. Yn unol â hynny, yn seiliedig ar y broses hunanasesu, mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi arfer ei swyddogaethau yn effeithiol; defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Bydd y cyfleoedd/meysydd i'w gwella a nodwyd yn rhan o'r broses hunanasesu flynyddol yn cael eu monitro drwy gydol 2026/27 yn rhan o drefniadau rheoli cyflawniad y Cyngor.